De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales

Heddlu De Cymru Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau a Lleihau Newid (2022-2025)

Gweithio gyda phartneriaid i atal effeithiau niweidiol cyffuriau ac alcohol

HEDDLU DE CYMRU | SOUTH WALES POLICE

Rhagair

Mae'r cynnydd mewn camddefnyddio sylweddau problemus wedi cyrraedd lefelau critigol mewn cymunedau ledled De Cymru. Mae angen ymateb cadarn gan yr heddlu, ac rydym yn ymrwymedig i wneud hynny. Fodd bynnag, ni all camau gweithredu gan yr heddlu yn unig ddatrys y problemau na newid y sefyllfa. Mae angen i gamau gweithredu gan gyrff Plismona a chyrff Cyfiawnder Troseddol eraill yng Nhymru gael eu gweld yng nghyd-destun camau gweithredu gan **bob** asiantaeth er mwyn deall y materion a mynd i'r afael â nhw. Mae atal, ymyrryd yn gynnar ac adsefydlu yn hanfodol. Rhaid i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau fod yn flaenoriaeth ganolog mewn strategaethau diogelwch cymunedol ym mhob ardal, a arweinir gan lywodraeth leol a phlismona gyda'i gilydd ond gan gynnwys pob asiantaeth arall ac yn benodol y Gwasanaeth Iechyd a'r Sector Gwirfoddol. Iechyd Cyhoeddus Cymru yw un o'n partneriaid allweddol, gan fod y galw ar yr heddlu a'r galw ar y GIG yn aml yn deillio o'r un achosion, fel y dangosir ar ffurf graff yn yr adroddiad ar effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yng Nghymru. O fewn y dull systemau cyfan y mae'r camau gweithredu gan yr heddlu i ddelio â'r rheini sy'n elwa o'r fasnach ddinistriol mewn cyffuriau yn gwneud synnwyr. Mae “model busnes” llinellau cyffuriau yn cynnull ac yn camfanteisio ar unigolion sy'n agored i niwed sy'n dod yn ddioddefwyr yn ogystal â throseddwyr yn un rheswm pam na allwn arestio ein ffordd allan o'r problemau cyffuriau a welir mor fynych a difrifol mewn cynifer o'n cymunedau. Felly, mae'r strategaeth hon yn nodi dull gweithredu Heddlu De Cymru o fewn cyd-destun gweithio mewn partneriaeth lle byddwn yn chwarae ein rhan ond mae hefyd yn galw ar Llywodraeth Cymru a'n holl bartneriaid lleol i chwarae eu rhan hefyd.

Mae marwolaethau o ganlyniad i gyffuriau wedi cyrraedd y lefelau uchaf erioed yng Nghymru, gyda'r niferoedd uchaf ers i'r cofnodion ddechrau. Mae marwolaethau o wenwyn cyffuriau wedi cynyddu 78 y cant dros y 10 mlynedd diwethaf.[1] Mae marwolaethau cyn amser o ganlyniad i ddefnyddio cyffuriau yn rhai y gellir eu hatal ac rydym yn ymrwymedig i weithio gyda'n partneriaid i atal marwolaethau trasig yn y dyfodol.
Dim ond un dangosydd o'r niwed cynyddol o ganlyniad i ddefnyddio sylweddau mewn cymunedau lleol yw'r cynnydd yn nifer y marwolaethau o ganlyniad i gyffuriau. Mae derbyniadau i ysbytai, firysau a gludir yn y gwaed, marwolaethau sy'n benodol o ganlyniad i alcohol, achosion o wahardd disgyblion o ysgolion o ganlyniad i gyffuriau, cyfraddau aildroseddu a thrais sy'n gysylltiedig â chyffuriau i gyd yn ddangosyddion o'r lefel o niwed a brofir. Dangosir effaith tlodi yn y ffaith bod y gyfran o'r holl gleifion a gaiff eu derbyn i'r ysbyty am gyflyrau sy'n benodol o ganlyniad i alcohol sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru 3.3 gwaith yn uwch na'r rheini o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig yng Nghymru. Mewn perthynas â defnydd o gyffuriau gwaharddedig, cododd y ffigur hwn i 7.3 gwaith yn uwch.[2]

Mae'r effaith ar blant a phobl ifanc yn glir, gyda thystiolaeth sy'n awgrymu, ar 31 Mawrth 2020, bod 4,405 o blant yn derbyn gofal a chymorth am fod eu rhieni'n camddefnyddio sylweddau. Roedd 560 o blant yn derbyn gofal a chymorth lle nodwyd eu bod yn camddefnyddio sylweddau eu hunain, sy'n cynrychioli 3.4 y cant o'r holl blant sy'n derbyn gofal a chymorth.[3] Dim ond rhai o'r ystadegau sy'n peri pryder yw'r rhain sy'n rhoi darlun o'r niwed a deimlir mewn cymunedau. Teimlir effaith

camddefnyddio sylweddau ar bob lefel o gymdeithas ac fe'i teimlir o fewn y gwasanaethau sydd â'r prif nod o gefnogi unigolion a chymunedau gan gynnwys Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Chyfiawnder Troseddol.

O ystyried maint a chymhlethdod camddefnyddio sylweddau, mae'n debygol y bydd pob aelod o'r boblogaeth yn adnabod rhywun yr effeithiwyd arno neu sy'n cael anawsterau. Gyda'n gilydd, rydym yn benderfynol o wneud popeth a allwn i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau a lleihau'r niwed sylweddol y mae'n ei achosi i unigolion, teuluoedd, cymheiriaid a chymunedau. Mae'n hanfodol i ni gael cefnogaeth y bobl yn ein cymunedau i'n helpu. Ni allwn lwyddo ar ein pen ein hunain. Mae llawer o unigolion a theuluoedd wedi cadw'n dawel am faterion sy'n gysylltiedig â sylweddau. Mae'n hanfodol ein bod yn torri'r tawelwch a'r arwahanrwydd sy'n gysylltiedig â materion o'r fath, fel bod unigolion a theuluoedd sy'n wynebu camddefnyddio sylweddau a'i ganlyniadau yn gwybod nad ydynt ar eu pennau eu hunain. Dyna pam y bydd rôl Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu fel cyfathrebwr ar y lefel leol bersonol iawn yn sicrhau y caiff dealltwriaeth fanwl o'r gymuned ei datblygu. Bydd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn gwrando ar yr unigolyn ac ar bobl yn eu cymuned, a fydd yn meithrin hyder yn eu swyddog yn lleol. Bydd gwrando ar y rheini sydd â phrofiad ymarferol o gamddefnyddio sylweddau yn parhau i fod yn allweddol i'n galluogi i ddeall yn llwyr sut y gallwn lunio ein hymateb yn effeithiol mewn partneriaeth.

Er y bydd y strategaeth hon yn cynnig fframwaith i weithredu ar sail De Cymru, nid yw'r dull hwn yn tynnu oddi ar yr angen am ymatebion partneriaeth ardaloedd lleol y bydd angen eu datblygu yn seiliedig ar ddadansoddi anghenion lleol. Mae'n bwysig bod partneriaethau yn deall y problemau a'r heriau yn lleol, yn dadansoddi'r ffeithiau mewn modd fforensig, ac yn cynllunio ffyrdd o leihau ac atal niwed ar y cyd. Dylent rannu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth â phobl leol fel eu bod yn deall yr heriau sy'n wynebu'r partneriaid ac yn teimlo'n wybodus eu bod wedi'u cynnwys yn yr ymateb. Mae'r cynnydd a welwyd gennym mewn marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cadarnhau bod angen i ni wneud mwy. Yng Nghymru, cofrestrwyd 322 o farwolaethau sy'n gysylltiedig â gwenwyn cyffuriau yn 2021. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 32% o gymharu â 2020 pan gofrestrwyd 224 o farwolaethau. Mae hyn yn annerbyniol ac rydym yn benderfynol o roi newidiadau parhaus ar waith yn y maes hwn lle rydym yn gweld bod angen ymateb Gwasanaethau Cyhoeddus hanfodol ar fyrder.

Rydym yn gweithio'n ddiflino gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r broblem mewn nifer o ffyrdd gwahanol ac arloesol. Ein nod yw sicrhau mai ni yw'r gorau o ran deall ac ymateb i anghenion pob un o'n cymunedau. Mae gweithio gyda phartneriaid yn allweddol i sicrhau bod pobl yn cael yr ymateb sydd ei angen arnynt, pan fydd ei angen arnynt. Mae mynd i'r afael â throseddwyr, yn enwedig troseddwyr cyfundrefnol sy'n rhan o'r broses o gynhyrchu a gwerthu cyffuriau, a'r rhai sy'n camfanteisio ar bobl sy'n agored i niwed, yn flaenoriaeth ond rhaid cydbwyso hyn ag atal ac ymyrryd yn gynnar a dealltwriaeth lawn o gydraddoldeb ac amrywiaeth.

[1] Marwolaethau oherwydd cyffuriau ar eu lefelau uchaf erioed yng Nghymru - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)
[2] https://icc.gig.cymru/cyhoeddiadau/cyhoeddiadau/cloddio-data-cymru-proffil-blynyddol-ar-gyfer-camddefnyddio-sylweddau-2020-21/
[3] https://icc.gig.cymru/cyhoeddiadau/cyhoeddiadau/cloddio-data-cymru-proffil-blynyddol-ar-gyfer-camddefnyddio-sylweddau-2020-21/

Datblygwyd Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau a Lleihau Niwed Heddlu De Cymru â phartneriaid ac mae'n amlinellu'r ffordd y byddwn yn cydweithio'n well i ddeall materion lleol ac i ddatblygu dull amlasiantaethol system gyfan a fydd yn helpu i atal y galw am gyffuriau a reolir a lleihau niwed yn ein cymunedau. Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod y rhai sydd fwyaf agored i niwed yn cael yr help a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i ddelio â dibyniaeth ar sylweddau, a byddwn yn ddiflino yn ein hymgais i ymlid y rheini sy'n bygwth ein cymunedau.

Mae Plismona yn y Gymdogaeth yn hanfodol, a byddwn yn atgyfnerthu rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i ganolbwyntio ar gyfathrebu, siarad â chymunedau a gwrando ar eu pryderon a'u profiadau o gamddefnyddio sylweddau. Bydd rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn allweddol wrth ddatrys problemau a grymuso cymunedau i fod yn wydn, yn ddiogel ac yn hyderus, gan gynnig cyfle i newid agweddau tuag at gamddefnyddio sylweddau. Rydym hefyd yn delio ag effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Yn ogystal â chefnogi dioddefwyr, rydym yn mynd i'r afael â chyflawnwyr trais a chamdriniaeth, ac felly bydd rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn rhan allweddol o'n gwaith yn mynd i'r afael â'r materion hyn sydd yn aml yn gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau.

Gan weithio gyda'r Gwasanaeth Prawf, rydym yn gwella'r broses o reoli troseddwyr. Ein nod yw cynnal lefelau uchel o foddhad ymhlith dioddefwyr. Byddwn yn gweithio i atgyfnerthu Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Byrddau Cynllunio Ardal a Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid sydd wedi bod yn bartneriaid allweddol wrth ddatblygu a chyflwyno'r gweithgareddau yn y strategaeth hon. Ein nod yw sicrhau bod dull gweithredu iechyd cyhoeddus yn cael ei gymryd, gan barhau â'n gwaith ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a datblygu partneriaethau cryfach â Byrddau Iechyd Abertawe, Cwm Taf Morgannwg a Chaerdydd a'r Fro er mwyn datblygu ein dulliau gweithredu system gyfan i fynd i'r afael â'r angen iechyd cyffredin hwn.

Mae Masnachu mewn Cyffuriau a Chyflenwi Cyffuriau yn flaenoriaeth o ran troseddau ac anhrefn i Heddlu De Cymru. Lluniwyd y Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau a Lleihau Niwed hwn fel cyflwyniad ffurfiol o nod ein heddlu mewn perthynas â mynd i'r afael â marchnadoedd cyffuriau sy'n bodoli a chyfyngu ar y cyffuriau gwaharddedig a gaiff eu cyflenwi i ardal yr heddlu. Bwriad Heddlu De Cymru, drwy'r strategaeth hon yw targedu'r cyffuriau gwaharddedig a gaiff eu cyflenwi i ardal yr heddlu a chyfyngu ar y cyflenwad hwnnw, gyda ffocws pendant wedi'i flaenoriaethu ar farchnadoedd cyffuriau problemus a'r unigolion a'r grwpiau hynny sy'n ymwneud â chyflenwi cyffuriau ar lefel stryd ac yn y farchnad ganol (sawl cilo).

Bydd yn dwyn ynghyd strategaethau rheoli, cynlluniau cyflawni a gofynion cudd-wybodaeth presennol i sicrhau un dull cyson. Er bod angen ei hadolygu bob blwyddyn, lluniwyd y strategaeth â'r nod o bennu cyfeiriad yr heddlu mewn perthynas â mynd i'r afael â'r bygythiad hwn dros y tair blynedd nesaf (2022 i 2025).

Mae'r gweithgarwch plismona, yn enwedig drwy Brosiect ADDER, wedi cael rhai canlyniadau cadarnhaol, gan ddefnyddio swyddogion ychwanegol ym maes gorfodi. Ein nod yw gweithio'n

effeithiol ar draws y bartneriaeth, gyda'n Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, gan ddarparu ymateb gwasanaethau cyhoeddus i'r mater er mwyn cyflawni'r effaith gadarnhaol fwyaf.

Y Gwir Anrh Alun Michael

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Jeremy Vaughan

Prif Gwnstabl

Cyd-destun

Mae camddefnyddio sylweddau yn her sylweddol i wasanaethau cyhoeddus ledled Cymru, gan gynnwys Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol, Plismona lleol ac Awdurdodau Lleol, yn ogystal ag i'n cymunedau ehangach. Er bod camddefnyddio sylweddau yn niweidio pob rhan o gymdeithas ledled Cymru, mae amrywiaethau daearyddol gyda rhai rhanbarthau yng Nghymru yn gweld lefelau uwch o ganlyniadau andwyol o gymharu ag eraill oherwydd patrymau hanesyddol o ddefnyddio alcohol a chyffuriau, amddifadedd economaidd-gymdeithasol a thueddiadau presennol mewn argaeledd, dulliau defnyddio a'r defnydd o amryw o gyffuriau. Yn 2018, roedd lefel y marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau a heintiau difrifol ymysg pobl sy'n chwistrellu cyffuriau yng Nghastell-nedd Port Talbot ac yn Abertawe yn bryder cynyddol. Gwelwyd cyfraddau sylweddol uwch o farwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau yn Abertawe o gymharu ag unrhyw ardal awdurdod lleol arall yng Nghymru yn 2018, a dim ond yn Blackpool y gwelwyd cyfraddau uwch. Ynghyd â nifer y marwolaethau o ganlyniadau i gyffuriau, oherwydd amlygrwydd cynyddol Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol yn y rhanbarth ac ymddangosiad gweithgarwch llinellau cyffuriau, cymerodd y Bwrdd Cynllunio Ardal ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau gamau gweithredu a galwodd gyfarfod “Digwyddiad Tyngedfennol” o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe. Cyfarfu arweinwyr yr holl gyrff cyhoeddus, gan gynnwys y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, ac arweinwyr y ddau Awdurdod Lleol a chytuno bod yn rhaid rhoi blaenoriaeth uniongyrchol a chritigol i gamddefnyddio sylweddau ledled yr ardal. Roedd hyn yn cynnwys ardal y bwrdd iechyd, sy'n cwmpasu'r ddau awdurdod lleol, uned reoli sylfaenol yr heddlu a'r ardal cyflenwi prawf. Dros y misoedd dilynol, cytunwyd ar gynllun drwy ragor o gyfarfodydd ar y cyd a rhoddwyd y dasg o'i roi ar waith i'r Bwrdd Cynllunio Ardal. Galwyd ‘Cyfarfod Digwyddiad Tyngedfennol’ arall o'r fath i drafod cynnydd ac i ystyried ymdrech o'r newydd ar y cyd i fynd i'r afael â'r problemau camddefnyddio sylweddau a'u heffaith drwy bob ffordd bosibl. Cytunodd pob un o'n Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus bod yn rhaid gwneud rhywbeth. Mae'n amlwg o'r ffigurau diweddar a gyhoeddwyd yn 2022 gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod marwolaethau o ganlyniad i gyffuriau wedi codi ymhellach gydag ardaloedd eraill yng Nghymru yn agos at y lefelau yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

Bydd cynrychiolwyr y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ym mhob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ledled De Cymru yn galw ar y partneriaid i roi blaenoriaeth allweddol i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau. Cynhaliodd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot “gyfarfodydd digwyddiadau tyngedfennol” a rhoi cynlluniau ar waith i ymateb i'r lefel uchel iawn o farwolaethau o ganlyniad i gyffuriau ym mhoblogaeth leol ardal y ddau gyngor a'r lefelau o drallod a chamfanteisio sy'n sail i'r ffigurau trasig hynny. Nid oedd y lefelau yn llawer is mewn sawl ardal arall yng Nghymru, ac rydym yn annog Llywodraeth Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a phob Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus i ymuno â ni i fynd i'r afael â'r mater ar fyrder.

Nid marwolaethau o ganlyniad i gyffuriau yw'r unig ffordd o fesur niwed o ganlyniad i chamddefnyddio sylweddau. Mae'r gost i'r unigolyn, y teulu, y gymuned a'r wladwriaeth yn para drwy gydol bywyd yr unigolyn, ond gall hefyd bontio'r cenedlaethau, gan gynyddu'r baich dynol, ariannol a chymdeithasol ar ffurf esgeulustod, camdriniaeth, torri cysylltiadau teuluol a chydberthynas, salwch corfforol a salwch meddwl a llesiant. Yn ôl yr Adolygiad Annibynnol o Gyffuriau a gynhaliwyd yn ddiweddar gan y Fonesig Carol Black, “the total cost to society of illegal drugs is around £20 billion per year”.
Independent review of drugs by Professor Dame Carol Black - GOV.UK (www.gov.uk)

Mae sail dystiolaeth eisoes yn bodoli ar y cysylltiad cymhleth rhwng cyffuriau, alcohol a throseddau. Yn hanesyddol, mae'r dull gweithredu cyfiawnder troseddol wedi mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau drwy sancsiynau cosbol a gyflawnir gan y System Cyfiawnder Troseddol yn bennaf. Ceir cydnabyddiaeth bod lleihau'r cyflenwad a'r galw am gyffuriau drwy blismona a gorfodi'r gyfraith yn effeithiol yn rhan allweddol o'r broses o fynd i'r afael â'r niwed a achosir gan gamddefnyddio sylweddau, fodd bynnag, mae angen defnyddio pob ffordd bosibl o fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau, o addysg, ymyrryd yn gynnar, triniaeth, cefnogaeth, cyhoeddusrwydd, darbwyllo ynghyd â gorfodi'r gyfraith. Rydym am weithio gyda phob unigolyn a sefydliad sydd am rannu'r dasg o drawsnewid y sefyllfa.

Mae'r strategaeth hon yn nodi'r disgwyliad clir y bydd Heddlu De Cymru yn ymryd camau gorfodi cryf yn erbyn y rheini sy'n delio mewn cyffuriau ac sy'n targedu pobl sy'n agored i niwed. Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 yw'r ddeddfwriaeth gyffredinol ar gyfer gorfodi mewn perthynas â chyffuriau yn y DU, a chyflwynwyd Deddf Sylweddau Seicoweithredol 2016 i fynd i'r afael â sylweddau seicoweithredol sy'n cael eu cyflenwi nad ydynt yn cael eu cwmpasu yn y Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau. Mae Cynllun Cyflawni'r Prif Gwnstabl 2021-2025 yn dangos ymrwymiad llwyr a ffocws gweithredol ar atal niwed o droseddau difrifol a chyfundrefnol am ei fod yn achosi niwed i'n cymunedau ac yn manteisio ar y rheini sy'n wynebu'r risg fwyaf. Mae gweithio gyda phartneriaid i amddiffyn y rhai sydd â llai o allu i amddiffyn eu hunain, neu eraill, rhag niwed neu achosion o gamfanteisio yn nodwedd allweddol i Gynllun Cyflawni'r Prif Gwnstabl. Mae sicrhau bod y rheini sy'n wynebu risg y bydd y sawl sy'n ymwneud â chyflenwi sylweddau yn camfanteisio arnynt yn cael eu nodi, eu hamddiffyn a'u cefnogi yn un o flaenoriaethau'r Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau a Lleihau Niwed hon.

cynllun-cyflawnir-prif-gwnstabl.jpg (2480×3508) (south-wales.police.uk)

Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd y Llywodraeth ‘From Harm to Hope - A 10-year Drugs Plan’, sy'n nodi, “Decriminalisation is often suggested as a simple solution to many of the problems caused by

illegal drugs. This is not the case. It would leave organised criminals in control while risking an increase in drug use. What is required is the whole system approach recommended by Dame Carol Black and, in implementing all the key recommendations of her review, that is what this strategy seeks to do: cutting off the supply of drugs, preventing and reducing drug use, and world-class treatment and recovery support for those battling addiction over the next decade".

From harm to hope: A 10-year drugs plan to cut crime and save lives - GOV.UK (www.gov.uk)

Mae'r Cyngor Cynghori ar Gamddefnyddio Cyffuriau wedi argymell cynlluniau dargyfeirio ddwywaith dull gweithredu polisi cyffuriau effeithiol. Mae wedi dadlau, "For people found to be in possession of drugs for personal use (and involved in no other criminal offences) they should not be processed through the CJS but instead diverted into drug education/awareness courses or possibly other more creative civil punishments…reducing repeat offending and reducing the costs to the CJS." Bydd y strategaeth hon yn amlinellu ymrwymiad Heddlu De Cymru i roi dull gweithredu system gyfan fwy effeithiol a soffistigedig ar waith lle yr ymddiriedir yn yr heddlu fel gwneuthurwyr penderfyniadau proffesiynol a all ddefnyddio amrywiaeth o wasanaethau mewn partneriaeth o lwybrau ymyrryd yn gynnar, Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys ac Erlyn, pan fo angen.

Mae Cynllun Heddlu a Throseddu De Cymru 2022-26 yn tynnu sylw at bwysigrwydd cyffuriau fel thema drawsbynciol mewn strategaeth troseddau, plismona a chyfiawnder. **Mae hyn yn cynnwys cysylltiadau â throseddau cyfundrefnol, dioddefwyr, trais, iechyd meddwl, Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV), pobl ifanc a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.** Mae Cynllun yr Heddlu a Throseddu yn amlygu ymroddiad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl i weithio mewn partneriaeth, fel ein bod mewn sefyllfa well i nodi a helpu'r rheini sy'n wynebu risg o newid cyn gynted ag y bo modd. Drwy ddatblygu ein llwybrau ymyrryd yn gynnar, rydym mewn sefyllfa well i gael help a chymorth i bobl ag amrywiaeth o anghenion gwahanol, gan gynnwys anghenion camddefnyddio sylweddau. Mae atal ac ymyrryd yn gynnar wrth wraidd Cynllun yr Heddlu a Throseddu, gyda ffocws ar gymryd **dull gweithredu iechyd cyhoeddus at fynd i'r afael â niwed gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r niwed o gamddefnyddio sylweddau a thrais**. Mae dargyfeirio o'r System Cyfiawnder Troseddol fel dull gweithredu yn cydnabod na fu'r llwybrau Cyfiawnder Troseddol traddodiadol ar gyfer delio â mân droseddau yn effeithiol wrth fynd i'r afael â'r mater. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, gyda chymorth y Prif Gwnstabl, wedi rhoi dulliau gweithredu dargyfeirio datblygol ar waith, gan gydnabod yr angen i ddefnyddio lens iechyd y cyhoedd yn ei ddull gweithredu plismona gydag enghreifftiau fel datblygu'r rhaglen 18-25 lle mae ysgogiad i osgoi cofnod troseddol drwy dderbyn ymyriad cynnar ar gyfer triniaeth neu gymorth yn arfer sefydledig. Mae'r Llwybr Menywod, gyda'i bwyslais ar nodi ffactorau sy'n golygu bod menyw yn cael ei denu i'r System Cyfiawnder Troseddol yn gynnar a gweithredu i fynd i'r afael â'r ffactorau hyn, wedi'i gymeradwyo gan ynadon ac eraill ar y Panel Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys.

Mae adolygiad gan gymheiriaid a gynhaliwyd o'r lluoedd hynny sy'n rhan o'r rhaglenni dargyfeirio ym maes cyffuriau wedi nodi '*There are strong arguments to support the hypothesis that harsher penalties for possession do not reduce subsequent drug possession or deter use.'* [4]

Mae ymrwymiad o fewn y cynllun i barhau i ddatblygu rhagoriaeth mewn llwybrau ymyrryd yn gynnar ac atal, gan ddefnyddio arferion gorau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, i ddargyfeirio'r rheini sy'n defnyddio cyffuriau ac alcohol oddi wrth droseddu drwy fesurau fel profi am gyffuriau ar adeg arestio, defnyddio Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys a thrwy driniaeth sylweddau a llwybrau cymorth effeithiol.

Cynllun Heddlu a Throseddu 2022-2026 (southwalescommissioner.org.uk)

Mae cydraddoldeb hiliol yn flaenoriaeth i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl sy'n gweithio drwy Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ar y Cyd (2021 - 2025) er mwyn cyflwyno newid, ar y cyd â'n cymunedau i sicrhau y caiff **anghymesuredd hiliol ei leihau** yn Heddlu De Cymru. Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol ar y Cyd yn sail i'r gwaith â ffocws y bydd yr Heddlu a'r Comisiynydd yn ei wneud a'i oruchwylio mewn perthynas â chydraddoldeb hiliol ledled Heddlu De Cymru. Mae wedi'i ategu gan sawl maes gweithgarwch arall ac mae'n gwbl ymrwymedig i hyrwyddo diwylliant sy'n cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i bawb yn Heddlu De Cymru. Rydym yn **ymrwymedig i wrando** ar ein cymunedau drwy gydol oes y cynllun, gan sicrhau bod cynnydd wir yn cael ei wneud a byddwn yn gweithio i sicrhau bod newid gwirioneddol yn cael ei ddangos. **Mae'n hanfodol, fel rhan o'r Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau a Lleihau Niwed hon, fod cydraddoldeb hiliol yn parhau i fod yn flaenoriaeth, gyda ffocws parhaus ar feithrin ein dealltwriaeth o ble y mae anghydraddoldeb hiliol yn bodoli yn y systemau, y gwasanaethau a'r prosesau triniaeth sylweddau, a'n cyfrifoldeb i weithio gyda'n partneriaid, sefydliadau allanol, arbenigwyr, cymunedau ac unigolion i ddeall sut i'w leihau yn effeithiol.**

Cynllun Cydraddoldeb Hilio ar y Cyd 2021-2025 | Heddlu De Cymru (south-wales.police.uk)

Nododd Adroddiad Barwnes Corston, yr adolygiad o fenywod sy'n agored i niwed yn y System Cyfiawnder Troseddol (2007) y gall menywod fod yn agored iawn i niwed gydag amrywiaeth o anghenion cymhleth y nodwyd eu bod yn wahanol i anghenion dynion sy'n cyflawni troseddau. Gall un o'r cymhlethdodau hyn gynnwys camddefnyddio sylweddau a dyna pam y rhoddir pwyslais penodol ar ymateb sy'n berthnasol i rywedd at driniaeth sylweddau yn y strategaeth hon. Gall bod yn rhan o'r System Cyfiawnder Troseddol gael effeithiau pellgyrhaeddol a pharhaus ar y menywod eu hunain, eu teuluoedd a'r cymunedau lle maent yn byw. **Yr her yw cynnig dull gweithredu cyfunol sy'n cydnabod anghenion sy'n berthnasol i rywedd menywod sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau a sicrhau bod yr ymyriadau triniaeth sylweddau a gomisiynir ac a gynigir yn hyrwyddo llesiant cadarnhaol sy'n cefnogi canlyniadau hirdymor llwyddiannus i leihau achosion o aildroseddu.** Gwnaed cynnydd eisoes yn y maes hwn, gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phlismona yng Nghymru yn cydweithio â phartneriaid cyfiawnder i ddatblygu Glasbrintiau ar gyfer darparu gwasanaethau i droseddwyr benywaidd a gwasanaethau cyfiawnder

[4] Albrecht & Ludwig-Mayerhofer et al (2011) Diversion and Informal Social control. Prevention and intervention in childhood and adolescence. An interdisciplinary project of the University of Bielefeld.
Clutterbuck, R (1995) Drugs, Crime and Corruption. Thinking the unthinkable. Palgrave Macmillan, a division of Macmillan Publishers Limited 1995.
UK Drug Commission 2008 https://www.ukdpc.org.uk/

ieuenctid. Mae'r Glasbrint hwn ar gyfer troseddwyr benywaidd yn nodi'r uchelgais i drawsnewid gwasanaethau'n gyflymach er mwyn creu **cymdeithas decach a mwy cyfartal** gyda chyfiawnder a chanlyniadau gwell i bawb.

glasbrint-ar-gyfer-troseddwyr-benywaidd.pdf (llyw.cymru)

The Corston Report - NICCO

Mae llawer o fenywod sy'n cael eu dal mewn cylch o anhwylder defnyddio sylweddau, sydd yn aml yn gysylltiedig â thrais domestig a cham-drin neu gam-drin rhywiol a phroblemau cymdeithasol a phersonol sylweddol, yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol heb unrhyw ffordd allan. Yn aml, bydd menywod yn cael eu rhoi yn y carchar am droseddau sy'n llai difrifol na dynion, ac rydym yn ymrwymedig i fynd i'r afael â'r mater hwn. Mae bod yn rhan o'r system carchardai yn arwain at effeithiau niweidiol, a all fod yr un mor ddifrifol o ran amharu ar fywyd teuluol, effaith ar blant a llesiant ac iechyd meddwl personol. Er mwyn torri'r cylch o anobaith, rydym yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu canolfan breswyl i fenywod er mwyn gallu ymyrryd mewn modd adeiladol ac arwyddocaol ym mywydau menywod unigol ac rydym yn chydweithio â chydweithwyr yn y gwasanaeth prawf ar ddatblygu canolfan breswyl i fenywod yn Abertawe gyda chymorth arweinwyr a gwleidyddion lleol.

Bydd yn arwain at atebion cynaliadwy sy'n seiliedig ar gymunedau i gadw menywod a chymunedau'n ddiogel ac yn rhydd o ymddygiad troseddol. Mae Heddlu De Cymru a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i leihau cymhlethdod a bregusrwydd menywod sy'n dod i gysylltiad â phlismona a Gwasanaethau Cyfiawnder Troseddol (boed hynny fel troseddwyr a/neu ddioddefwyr) lle mae hyn yn gysylltiedig â defnyddio sylweddau (h.y. drwy 'Ddull gweithredu system gyfan llwybr i fenywod' a gomisiynwyd gan Heddlu De Cymru a Heddlu Gwent, a'r gwasanaeth triniaeth camddefnyddio sylweddau a gyflawnir gan 'Dyfodol De Cymru' a gomisiynwyd gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF). **Wrth roi'r Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau a Lleihau Niwed hon ar waith, byddwn yn gwrando ar fenywod sydd â phrofiad o gamddefnyddio sylweddau a/neu sy'n parhau i gamddefnyddio sylweddau ac yn atgyfnerthu dulliau gweithredu sy'n ystyriol o drawma a rhywedd mewn perthynas â'r broses o gyflawni triniaeth camddefnyddio sylweddau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth o ran strategaeth a chyflawni â'r Glasbrintiau.**

Ymyrraeth Camddefnydd Sylweddau (southwalescommissioner.org.uk)

Mae atal plant rhag dod yn rhan o'r System Cyfiawnder Troseddol, drwy leihau eu cyswllt â hi a gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd ar gyfer dargyfeirio, yn hanfodol er mwyn eu helpu i fyw bywydau di-drosedd. Nod statudol y System Cyfiawnder Ieuenctid yw atal plant rhag troseddu. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi gofynion i sicrhau y caiff gwasanaethau lleol eu darparu er mwyn atal plant rhag troseddu ac er mwyn hybu eu lles ar gyfer y dyfodol. Gall Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod gael effaith sylweddol ar lesiant meddyliol gydol oes gan arwain at ganlyniadau negyddol fel cymryd rhan mewn troseddau. Mae'r rheini sydd wedi cael pedwar neu fwy o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod 15 o weithiau yn fwy tebygol o gyflawni trais ac 20 o weithiau yn fwy tebygol o

gael eu carcharu. Felly, mae'r polisi yn canolbwyntio ar atal a lleihau effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, o atal problemau sy'n pontio cenedlaethau ac o ddatblygu gwydnwch er mwyn gwella cyfleoedd mewn bywyd. **Mae Heddlu De Cymru a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru yn gweithio mewn partneriaeth, gan gymryd dull gweithredu cydweithredol i gyflwyno dull gweithredu system gyfan sy'n nodi'r uchelgais i gael system sy'n seiliedig ar hawliau ac sy'n ystyriol o drawma, sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer dargyfeirio i driniaeth a chefnogaeth ar gyfer y rheini sy'n wynebu risg o fod yn rhan o'r System Cyfiawnder Troseddol.** Felly, mae'n hanfodol, er mwyn meithrin ein gallu i weithio yn y gofod ymyrryd yn gynnar ac atal, mae'r Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau a Lleihau Niwed hon yn ystyried sut y gall partneriaid mewn Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid, Awdurdodau Lleol a lleoliadau Iechyd y Cyhoedd ac Addysg gydweithio er mwyn lleihau Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, gan gefnogi ein gallu i feithrin gwydnwch pobl ifanc, gan gynnig cyfleoedd i leihau'r risg o newid iddynt eu hunain drwy gamddefnyddio sylweddau a gwrando ar leisiau pobl ifanc er mwyn deall sut i wneud hyn yn effeithiol. Mae ein strategaeth Plismona yn y Gymdogaeth yn canolbwyntio ar sicrhau bod gan bobl ifanc hyder i siarad â PCSO, fel swyddog dibynadwy ac agos atynt y gallant ymddiried ynddo a dibynnu arno i helpu ag amrywiaeth o faterion y gallant fod yn eu hwynebu, gan gynnwys trais, hiliaeth, camfanteisio a chamddefnyddio sylweddau er enghraifft.

glasbrint-ar-gyfer-cyfiawnder-ieuenctid.pdf (llyw.cymru)

Mae Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-2022 Llywodraeth Cymru (y ‘Cynllun’), a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021, yn nodi polisi allweddol a blaenoriaethau gweithredol Llywodraeth Cymru ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Cafodd y blaenoriaethau a nodir yn y cynllun eu llywio gan ymgynghoriad â Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru, ac maent yn cyd-fynd â Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau a Lleihau Niwed De Cymru. Mae cymryd dull gweithredu cydweithredol at sicrhau bod strategaethau yn cyd-fynd â'i gilydd yn cefnogi'r broses o ddatblygu cytundeb ar y cyd ynghylch sut i ddatblygu mentrau ar y cyd. Un enghraifft o strategaeth Llywodraeth Cymru yw'r nod allweddol cyntaf, ‘atal niwed’ a ‘sicrhau bod pobl yn gallu gwneud dewisiadau gwybodus er mwyn atal a lleihau’r niwed sy’n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau’ lle mai un gweithgaredd yw i Lywodraeth Cymru weithio gyda Gweithwyr Plismona, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a phartneriaid Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ddatblygu hyfforddiant, gwybodaeth a deunydd i godi ymwybyddiaeth o'r dull gweithredu sy'n ystyriol o drawma ar gyfer darpariaeth camddefnyddio sylweddau yng Nghymru. Y nod yw atal problemau sy'n pontio cenedlaethau a meithrin gwydnwch i wella cyfleoedd mewn bywyd, gan ganolbwyntio ar atal a lleihau effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Mae'n nodi y bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda phartneriaid a fydd hefyd yn ystyried, er enghraifft, cyd-fynd ag amcanion glasbrintiau Cymru ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid a Throseddwyr Benywaidd. Nodir bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu adolygu ei strategaeth a bydd yn ymgysylltu â Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru i sicrhau y caiff y dull gweithredu cydweithredol ei gynnal. Mae strategaeth bresennol Llywodraeth Cymru i'w gweld drwy ddilyn y ddolen isod ar gyfer rhagor o wybodaeth fanwl. Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, mae gan Lywodraeth Cymru gynlluniau i adolygu a diwygio'r cynllun cyflawni.

Cynllun cyflawni ar gyfer camddefnyddio sylweddau 2019 i 2022 | LLYW.CYMRU

Y Sefyllfa yn Ne Cymru

Mae Masnachu mewn Cyffuriau a Chyflenwi Cyffuriau yn flaenoriaeth o ran troseddau ac anrhefn ar gyfer Heddlu De Cymru ar hyn o bryd, a chaiff ei asesu fel un o'r risgiau thematig uchaf o ran Rheoli Risg mewn perthynas â Gorfodi'r Gyfraith (MoRiLE). Yn ystod y broses yn 2021, marchnadoedd cyffuriau problemus oedd y risg y rhoddwyd y flaenoriaeth uchaf iddi, gyda'r cyflenwad o gyffuriau marchnadoedd canol yn ail, bensodiasepinau gwaharddedig yn bedwerydd a troseddoldeb llinellau cyffuriau yn ddegfed allan o 44 o feysydd a aseswyd, sy'n nodi maint yr effaith ar y cymunedau rydym yn eu plismona. Nid oes dim i awgrymu y bydd y lefel risg hon yn lleihau yn y tymor byr i ganolig, ac mae'n debygol mai cyfyngu ar y cyffuriau gwaharddedig a gaiff eu cyflenwi fydd blaenoriaeth yr heddlu o hyd.

Nodwyd y meysydd canlynol yn benodol o fewn y maes blaenoriaeth cyffredinol, oherwydd y lefel ganfyddedig o risg sy'n gysylltiedig â nhw:

- Marchnadoedd Cyffuriau Problemus
- Cyflenwad Cyffuriau'r Farchnad Ganol
- Llinellau Cyffuriau

Lluniwyd y Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau a Lleihau Niwed hwn fel cyflwyniad ffurfiol o nod ein heddlu mewn perthynas â mynd i'r afael â marchnadoedd cyffuriau sy'n bodoli a chyfyngu ar y cyffuriau gwaharddedig a gaiff eu cyflenwi i ardal yr heddlu. Bydd yn dwyn ynghyd strategaethau rheoli, cynlluniau cyflawni a gofynion cudd-wybodaeth presennol i sicrhau un dull cyson. Er bod angen ei hadolygu bob blwyddyn, lluniwyd y strategaeth â'r nod o bennu cyfeiriad yr heddlu mewn perthynas â mynd i'r afael â'r bygythiad hwn dros y tair blynedd nesaf (2022 i 2025).

Mae'r strategaeth wedi'i llywio gan Genhadaeth, Gweledigaeth a Gwerthoedd yr heddlu gyda'r nod cyffredinol o **gadw De Cymru yn ddiogel**. Mae'n cyd-fynd yn agos â llinyn gweithredol Cynllun Cyflawni'r Prif Gwnstabl a Chynllun yr Heddlu a Throseddu De Cymru (2022-26) a bydd yn rhoi blaenoriaeth i atal niwed o Droseddau Cyfundrefnol Difrifol a sicrhau bod pobl yn cael eu hamddiffyn rhag achosion o gamfanteisio. Mae partneriaethau effeithiol wrth wraidd ymateb yr heddlu i fynd i'r afael â chyffuriau a derbyniwyd dull gweithredu amlasiantaethol fel yr unig ffordd effeithiol o gyfyngu ar gyflenwad a lleihau galw.

Marchnadoedd Cyffuriau

Cyhoeddodd yr heddlu broffil dadansoddol cynhwysfawr o'r marchnadoedd cyffuriau sy'n effeithio ar ardal yr heddlu ym mis Awst 2021. Hwn oedd y proffil cyntaf o'i fath o'r farchnad ers dwy flynedd ac mae wedi ystyried newidiadau ers yr asesiad diwethaf, effaith COVID-19 ar y farchnad a pha mor agos y caiff tueddiadau cenedlaethol a materion sy'n dod i'r amlwg eu hadlewyrchu ar lefel leol. Mae'r proffil wedi cael ei rannu'n eang yn fewnol ac i bartneriaid yr ymddiriedir ynddynt.

Caiff crynodeb o ganfyddiadau lefel uchel perthnasol o'r proffil eu hamlinellu isod:

- Mae nifer yr achosion a gofnodwyd sy'n gysylltiedig â meddu ar gyffuriau neu gyflenwi cyffuriau wedi cynyddu 30% yn y ddwy flynedd diwethaf.

- Nid oes llawer i nodi bod cyfyngiadau COVID-19 difrifol dros y 18 mis diwethaf wedi cael effaith amlwg ar y cyflenwad o gyffuriau gwaharddedig na'r galw amdanynt, gyda'r marchnadoedd presennol yn addasu a marchnadoedd newydd yn ymddangos. Mae'n annhebygol y bydd y dulliau newydd a'r marchnadoedd ar gyfer cyflenwi nwyddau yn ystod y cyfyngiadau symud yn diflannu unwaith y caiff y cyfyngiadau eu dileu.
- Nid oes dim i awgrymu gostyngiad yn y galw am Heroin, ac ni welwyd gostyngiad amlwg mewn cyflenwad o fewn ardal yr heddlu oherwydd COVID-19 nac ymyriad Ymgyrch Venetic.
- Canabis yw'r cyffur mwyaf cyffredin ar draws ardal yr heddlu. Nodir tueddiad newydd yn yr arfer o werthu a defnyddio echdynion canabis yn hytrach na chanabis gwair traddodiadol.
- Mae'r defnydd o dynhawyr derbynyddion canabinoid synthetig (SCRAs a elwir yn gyffredin yn ‘Spice’) yn parhau i fod yn broblemus ac mae wedi cynyddu, yn arbennig o fewn y gymuned pobl ddigartref ac amgylchedd carchardai.
- Yn draddodiadol, gwelwyd cysylltiad amlwg rhwng y defnydd o gocên a'r economi liw nos felly bydd mwy o argaeledd a galw gan fod y cyfyngiadau wedi'u llacio a bod clybiau nos, gwyliau a lleoliadau adloniant eraill yn ailagor.
- O ganlyniad i'r cyfyngiadau symud a'r cyfyngiadau parhaus ar yr economi liw nos, mae cudd-wybodaeth yn awgrymu bod Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol wedi pentyrru MDMA/Ecstasy sydd wedi effeithio ar y pris, gydag un gram o MDMA yn gwerthu am hanner y pris a welwyd 12 mis yn ôl.
- Mae'r defnydd o bensodiasepinau gwaharddedig wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, sy'n dueddiad a welir gan yr heddlu a ffynonellau cudd-wybodaeth partner. Er bod llwybrau cyflenwi traddodiadol drwy gamddosbarthu meddyginiaethau rhagnodedig yn bodoli o hyd, caiff y cynnydd yn y defnydd eang o bensodiasepin ei lywio gan fwyaf gan farchnad gynyddol ar-lein.
- Derbynnir y cysylltiad rhwng defnyddio cyffuriau gwaharddedig a thlodi yn gyffredinol. Ledled ardal yr heddlu, ceir cysylltiad cryf ac amlwg rhwng yr ardaloedd yr ystyrir eu bod yn uchel ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a marchnadoedd cyffuriau problemus a sefydledig.
- Roedd y rhan fwyaf o'r rheini a gafodd eu harestio am droseddau *cyflenwi* cyffuriau yn ystod y cyfnod adolygu rhwng 18 a 34 oed (61%) ac yn ddynion Prydeinig gwyn. Fel arfer, mae ganddynt farcwyr rhybuddio am gyffuriau, iechyd meddwl neu drais ar eu cofnodion NICHE ac maent wedi cael eu harestio yn y gorffennol am droseddau sy'n ymwneud â chyffuriau, trais neu ddwyn a thrin eiddo.
- Roedd y rhan fwyaf o'r rheini a gafodd eu harestio am droseddau *meddiannu* cyffuriau hefyd rhwng 18 a 34 oed (61%) ac yn ddynion Prydeinig gwyn. Mae gan lawer ohonynt ffactorau lluosog sy'n golygu eu bod yn agored i niwed gan gynnwys iechyd meddwl, dyled a digartrefedd, maent yn aml yn droseddwyr sy'n aildroseddu, yn ddefnyddwyr cyffuriau problemus ac yn ymwneud â thrais a throseddu.
- Roedd dwy ran o dair o'r partneriaid a arolygwyd ar gyfer y proffil o'r farn bod cryn alw cudd am gyffuriau gwaharddedig yn ardal yr heddlu, nad yw asiantaethau gorfodi'r gyfraith na gwasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol yn ymwybodol ohono ar hyn o bryd.

Amcan

Amcan cyffredinol Heddlu De Cymru drwy'r Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau a Lleihau Niwed hon yw targedu'r cyffuriau gwaharddedig a gaiff eu cyflenwi i ardal yr heddlu a chyfyngu ar y cyflenwad hwnnw, gyda ffocws pendant wedi'i flaenoriaethu ar farchnadoedd cyffuriau problemus a'r unigolion a'r grwpiau hynny sy'n ymwneud â chyflenwi cyffuriau ar lefel stryd ac yn y farchnad ganol (sawl cilo).

Mae'r strategaeth hefyd yn amlinellu'r ffordd y bydd yr heddlu yn cydweithio'n well â phartneriaid i ddeall materion lleol yn well ac i ddatblygu dull amlasiantaeth system gyfan a fydd yn helpu i atal y galw am gyffuriau a reolir a lleihau niwed yn ein cymunedau. Mae gweithio gyda'n cymunedau, grymuso pobl yn lleol a sicrhau bod gan bobl yr hyder i weithio gyda PCSOs a Swyddogion yr Heddlu wrth ddatrys problemau lleol yn hanfodol.

Nodau Strategol

a. Ymyrryd yn Gynnar ac Atal

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid gyda'r bwriad o atal achosion o gamddefnyddio sylweddau gan ddilyn dull iechyd y cyhoedd. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r amrywiaeth o wybodaeth, arbenigedd a chudd-wybodaeth i'n galluogi i ymdrin yn llawn â'r materion cymhleth sy'n gysylltiedig â defnyddio sylweddau a'r niwed a'r troseddu cysylltiedig. I ategu hyn, byddwn yn sicrhau bod ein staff yn meddu ar yr adnoddau i ddeall, i nodi ac i ddatblygu'r arferion gweithredol gorau ledled pob un o ardaloedd yr heddlu. Gan ddefnyddio'n benodol ein PCSOs fel rhan o'n strategaeth plismona yn y gymdogaeth, byddant yn gwneud y canlynol:

- Deall problemau a heriau lleol
- Dadansoddi'r ffeithiau mewn modd fforensig
- Sicrhau bod yr Heddlu a phartneriaid yn cynllunio ffyrdd o leihau ac atal niwed cyn gynted â phosibl
- Sicrhau bod perchnogaeth leol dros y problemau a'r atebion hynny wrth wraidd yr hyn a wnawn
- Rhannu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a ddaw i law â phobl leol

Gyda'n gilydd, byddwn yn ceisio rhoi rhaglenni addysgol ar waith, gan wella ymwybyddiaeth o'r peryglon sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau er mwyn dargyfeirio pobl rhag camddefnyddio yn y lle cyntaf. Bydd hyn yn ceisio cynnwys anghenion pobl ifanc gan gynnwys y rheini mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant drwy Raglen Ysgolion yr Heddlu i Gymru, cyfleusterau Addysg Uwch ac asiantaethau partneriaeth.

b. Torri'r Cylch Caethiwed

Byddwn yn gweithio'n effeithiol i gefnogi nodau ac amcanion y byrddau strategol allweddol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau trin cyffuriau digonol a phriodol ar gael ym mhob rhan o'r heddlu (er enghraifft, Byrddau Cynllunio Ardal a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol). Byddwn hefyd yn gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys partneriaid cyfiawnder ieuenctid, rheoli troseddwyr a chyfiawnder troseddol i ddarparu gwasanaethau sy'n dargyfeirio pobl o droseddu a defnyddio cyffuriau, ac wrth wneud hynny, byddwn yn gwrando ar leisiau'r rheini â phrofiad uniongyrchol, teuluoedd, dioddefwyr a chymunedau er mwyn sicrhau y caiff eu safbwyntiau ar ein ffordd o weithredu eu hystyried.

Byddwn yn helpu i ddiogelu oedolion a phobl ifanc sy'n agored i niwed drwy drefniadau gweithio mewn partneriaeth effeithiol, gan ddefnyddio rôl PCSOs fel cyfathrebwyr a chan ddefnyddio eu dulliau datrys problemau i leihau troseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau ac achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â defnyddio cyffuriau ac alcohol. Byddwn yn gwella canlyniadau i unigolion, gan gydnabod effaith anghymesuredd ar grwpiau ar y cyrion a byddwn yn ymrwymedig i ymdrin â'r anghydraddoldebau hynny o ran mynediad at wasanaethau dargyfeirio.

Yn ogystal, byddwn yn hyrwyddo trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth a chudd-wybodaeth â phartneriaid ac yn hysbysu cymunedau am y gwaith rydym yn ei wneud. Bydd rôl PCSOs fel cyfathrebwyr, yn gwrando ar bobl yn eu hardal leol ac yn sicrhau y caiff y wybodaeth ei deall a'i chyfleu er mwyn helpu i reoli risg a datblygu cudd-wybodaeth, yn chwarae rhan hanfodol yn y broses o gasglu cudd-wybodaeth ar gyfer pob Uned Reoli Sylfaenol. Ar y cyd â'n hasiantaethau partner a'r Byrddau Cynllunio Ardal, byddwn yn ystyried dulliau blaengar o atal a lleihau niwed pellach a achosir gan gaethiwed i gyffuriau, ac yn cymryd rhan mewn trafodaethau ar y dulliau hynny, gan gynnwys y therapïau amnewid opiadau sydd ar gael.

Byddwn yn sicrhau ein bod yn defnyddio amrywiaeth o Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys sy'n cynnig cyfleoedd dargyfeirio rhag troseddu pellach, i mewn i driniaeth, gwasanaethau cymorth ac addysg, a byddwn yn rhoi dull gweithredu blaengar ac arloesol ar waith mewn perthynas ag ymyriadau cyffuriau, gan sicrhau y caiff llais defnyddwyr gwasanaethau a'r rheini â phrofiad uniongyrchol eu cynnwys wrth gydweithio â gwasanaethau cyffuriau cymunedol a chyfiawnder troseddol. Un o agweddau allweddol y broses hon fydd rhannu'r gwersi a ddysgwyd o Brosiect ADDER ('Addiction, Diversion, Disruption, Enforcement and Recovery' yn Saesneg), sef menter wedi'i hariannu gan y Swyddfa Gartref i fynd i'r afael ag achosion o gamddefnyddio cyffuriau a throseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau. Byddwn yn ceisio dylanwadu ar y broses o ddatblygu Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys effeithiol a llywio'r broses honno.

c. Mynd i'r Afael â Chyflenwi

Byddwn yn parhau i fynd ar drywydd troseddwyr fel heddluoedd unigol, yn ogystal ag fel rhanbarth. Byddwn yn cynyddu'r defnydd o gudd-wybodaeth gymunedol a chudd er mwyn helpu i ddatblygu ein capasiti a'n gallu i fynd i'r afael ag achosion o fasnachu mewn cyffuriau a chyflenwi cyffuriau yn lleol

ac yn rhanbarthol. Byddwn yn parhau i gydweithio â phartneriaid rhanbarthol a chenedlaethol er mwyn targedu'r cyflenwad cyffuriau ymhellach i fyny'r gadwyn yn effeithiol a thargedu cyllid y rheini sy'n rhan o'r broses. Byddwn yn parhau â'n hymdrechion cadarn i erlyn y rheini sy'n cyflenwi cyffuriau a reolir, a rhoi cymorth i'r rheini y camfanteisir arnynt, y rheini sy'n agored i niwed, y rheini sydd wedi rhoi gwybod am achosion ac sydd wedi bod yn dyst i bobl yn defnyddio cyffuriau ac i sicrhau bod y rheini sy'n rhoi gwybodaeth yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn. Mae sicrhau bod cymunedau yn ddiogel, yn cael eu cefnogi a'u bod yn ymgysylltu â ni yn y gwaith hwn yn allweddol i'w lwyddiant a'i effaith.

Mae'r nodau strategol hyn yn uchelgeisiol, yn bellgyrhaeddol, yn gostus ac yn gofyn am adnoddau sylweddol. Fodd bynnag, maent yn dangos ymrwymiad y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu i ddiogelu cymunedau a darparu gwasanaeth ardderchog. Fodd bynnag, ni ellir cyflawni hyn drwy ddim ond plismona.

Cyflawni Tactegol

Er mai prif gyfrifoldeb Heddlu De Cymru yw atal troseddau a niwed, ni all yr heddlu wneud hyn ar ei ben ei hun. Mae angen ymdrech gan bawb, gan gynnwys ar lefel Llywodraeth Cymru ac ar lefel iechyd y cyhoedd. Mae angen ymdrech hefyd gan gynghorau lleol, ysgolion, clybiau ieuenctid lleol, y GIG, pobl sy'n gweithio ym maes iechyd meddwl, y trydydd sector, byrddau cynllunio ardal a phartneriaethau diogelwch cymunedol, ac yn anad dim, y bobl leol eu hunain. Ni ellir gorbwysleisio grym y gymuned leol i wneud daioni. Fel rhan o'r strategaeth plismona yn y gymdogaeth, mae PCSOs yn cyfathrebu â'u cymunedau lleol ac yn grymuso'r bobl yn y gymuned i feddu ar yr hyder i wneud pethau sy'n gwella eu bywydau, iddyn nhw eu hunain, eu teuluoedd a'u cymdogion. Bydd PCSOs yn gweithio fel datryswyr problemau gan ddod â phobl at ei gilydd, a manteisio ar ddealltwriaeth y rheini sy'n rhan o wasanaethau eraill o'u hamgylch. Gall olygu defnyddio adnoddau'r heddlu neu gamau gweithredu ar y cyd gan yr heddlu. Gall olygu gweithio gyda grŵp ieuenctid lleol neu gyngor lleol oherwydd yr ardal leol benodol a phryderon grwpiau. **Mae'n hanfodol bod y cymunedau a wasanaethir gennym yn ein cefnogi er mwyn i ni gadw De Cymru yn ddiogel.**

Er mwyn cyflawni'r nodau strategol a amlinellwyd yn y strategaeth, nodwyd sawl eitem dactegol gyffredinol i'w chyflawni ar gyfer pob nod diffiniedig. Fe'u hamlinellwyd yn y tabl isod, a nodwyd perchennog penodol sy'n gyfrifol am weithredu'r eitem honno. Caiff pob un o'r eitemau hyn i'w cyflawni ei hadolygu bob blwyddyn, a chynhelir yr adolygiad cyntaf ym mis Awst 2023.

Eitemau i'w cyflawni

Cyflawni Tactegol	Perchennog
1.1 Gwella ein cudd-wybodaeth gymunedol drwy annog preswylwyr i gyflwyno gwybodaeth, gan sicrhau bod partneriaid a chymunedau yn glir ynghylch y gwahanol ddulliau adrodd.	
a. Strategaeth plismona yn y gymdogaeth er mwyn sicrhau y caiff PCSOs eu hintegreiddio a bod cysylltiadau ymgysylltu cadarn ar waith â phob cymuned	Arweinydd Plismona yn y Gymdogaeth
b. Strategaeth gyfathrebu er mwyn ystyried y gwahanol ddulliau adrodd a sicrhau hygyrchedd i bartneriaid a chymunedau	Cyfathrebu Corfforaethol

1.2 Datblygu ein capasiti a'n gallu i fynd i'r afael ag achosion o fasnachu mewn cyffuriau a chyflenwi cyffuriau yn lleol ac yn rhanbarthol.	
a. Datblygu sgiliau ymchwilio cudd ac agored ar lefel Uned Reoli Sylfaenol (BCU)	Uned Cudd-wybodaeth a Throseddau Cyfundrefnol yr Heddlu
b. Gwella amseroldeb prosesau adnabod cyffuriau ar gyfer y broses Cyfiawnder Troseddol	Arweinydd Cyffuriau'r Heddlu
c. Gwella amseroldeb archwiliadau digidol a threfniadau caffael data cyfathrebu	Uned Rheoli Gweithrediadau Cudd yr Heddlu
d. Defnyddio'r gofrestr eiddo ffonau symudol genedlaethol adeg arestio	Arweinydd Uned Cudd-wybodaeth a Throseddau Cyfundrefnol yr Heddlu
e. Cydweithio â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS) i wella'r broses o rannu cudd-wybodaeth a lleihau cyffuriau a throseddu mewn carchardai	Arweinydd Uned Cudd-wybodaeth a Throseddau Cyfundrefnol yr Heddlu
1.3 Gwella trefniadau cydweithio â phartneriaid rhanbarthol a chenedlaethol er mwyn targedu'r cyflenwad cyffuriau ymhellach i fyny'r gadwyn yn effeithiol (er enghraifft, gan gysylltu'n effeithiol â Byrddau Diogelu Rhanbarthol a Byrddau Diogelu Cyd-destunol).	
a. Chwilio am gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau gweithredol ar y cyd	Arweinydd Uned Cudd-wybodaeth a Throseddau Cyfundrefnol yr Heddlu
b. Parhau i ymgysylltu drwy brosesau'r Grŵp Cudd-wybodaeth Rhanbarthol a'r Grŵp Gorchwyl Troseddau Cyfundrefnol Difrifol Rhanbarthol	Arweinydd Uned Cudd-wybodaeth a Throseddau Cyfundrefnol yr Heddlu
c. Sicrhau bod yr heddlu wedi'i gynrychioli ar Fyrddau Diogelu rhanbarthol a chyd-destunol ledled ôl troed De Cymru	Arweinydd Uned Diogelu'r Cyhoedd
d. Cyfrannu at y cynllun gweithredu cyffuriau rhanbarthol ac ymgysylltu â'r broses honno a mynychu'r grŵp cyflawni thematig rhanbarthol ar gyffuriau	Arweinydd Cyffuriau'r Heddlu ac Arweinydd Strategol Camddefnyddio Sylweddau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
1.4 Symleiddio prosesau gorchwyl er mwyn sicrhau y gellir atal y rheini sy'n achosi'r niwed mwyaf mewn ffordd brydlon ac effeithiol	
a. Rhoi'r prosesau Gorchwyl Dyddiol diwygiedig ar waith erbyn hydref 2023	Arweinydd Uned Cudd-wybodaeth a Throseddau Cyfundrefnol yr Heddlu

b. Sicrhau bod Grŵp Cudd-wybodaeth yr Heddlu yn nodi cyfleoedd allweddol ar gyfer ymyriadau a chymorth gweithredol	Arweinydd Uned Cudd-wybodaeth a Throseddau Cyfundrefnol yr Heddlu
c. Llwyddo i roi mwy o flaenoriaeth i ymdrin â Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol trawsffiniol drwy brosesau Gorchwyl Troseddau Cyfundrefnol Difrifol Rhanbarthol	Arweinydd Uned Cudd-wybodaeth a Throseddau Cyfundrefnol yr Heddlu
1.5 Targedu cyllid y rheini sy'n gysylltiedig â chyflenwi cyffuriau.	
a. Atafaelu mwy o arian parod	Arweinydd Uned Cudd-wybodaeth a Throseddau Cyfundrefnol yr Heddlu
b. Gwella perfformiad wrth adennill asedau	Arweinydd Uned Cudd-wybodaeth a Throseddau Cyfundrefnol yr Heddlu

Cyflawni Tactegol	Perchennog
2.1 Sicrhau bod rhaglenni ymyriadau cyffuriau wedi'u teilwra'n benodol yn cael eu rhoi ar waith yn unol ag anghenion pobl ifanc gan gynnwys y rheini nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant drwy raglen Ysgolion yr Heddlu i Gymru, cyfleusterau Addysg Uwch ac asiantaethau partneriaeth.	
a. Gwneud cyflwyniadau ymwybyddiaeth o linellau cyffuriau i bartneriaid Diogelwch Cymunedol	Arweinydd Cyffuriau'r Heddlu
b. Rhaglen Ysgolion yr Heddlu i Gymru yn gwneud cyflwyniadau wedi'u teilwra'n benodol	Cydgysylltydd Cenedlaethol a Chydgysylltydd Rhanbarthol Rhaglen Ysgolion yr Heddlu i Gymru
c. Cyfleoedd i gydweithio â Rhaglen Ysgolion yr Heddlu i Gymru ac HMPPS yng Nghymru i gyflwyno negeseuon allweddol mewn ysgolion	Arweinydd Strategaeth Cyffuriau Ranbarthol Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF
d. Swyddogion Timau Troseddau Cyfundrefnol yn gwneud cyflwyniadau ymwybyddiaeth i golegau trydyddol	Arweinydd Uned Cudd-wybodaeth a Throseddau Cyfundrefnol yr Heddlu

e. Manteisio i'r eithaf ar ymgyrchoedd 'Fearless' Crimestoppers a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth Ymddiriedolaeth St Giles	Arweinydd Cyffuriau'r Heddlu
f. Integreiddio ymwybyddiaeth o weithredu mewn ffordd sy'n ystyriol o rywedd a thrawma i'r briffiadau a gyflwynir: Sicrhau bod staff sy'n cyflwyno briffiadau yn gysylltiedig â'r glasbrint ar gyfer Troseddwyr Benywaidd sy'n cyflwyno pecyn hyfforddiant sgiliau ymarferwyr sy'n ystyriol o rywedd a thrawma ar lefel amlasiantaethol	Arweinydd Glasbrint ar gyfer Troseddwyr Benywaidd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF
2.2 Adolygu rhaglenni Ysgolion yr Heddlu i Gymru a gweithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau bod gwasanaethau arbenigol yn darparu cyngor a chymorth priodol o ran lleihau niwed.	
a. Gweithio gyda phartneriaid i ystyried argymhellion yr adolygiad o Raglen Ysgolion yr Heddlu i Gymru	Cydgysylltydd Cenedlaethol Rhaglen Ysgolion yr Heddlu i Gymru
b. Mewn partneriaeth, datblygu rhaglenni lleol i ysgolion sy'n cyrraedd cynulleidfaoedd wedi'u targedu sy'n benodol i bob ardal	Cydgysylltydd Rhanbarthol Rhaglen Ysgolion yr Heddlu i Gymru
c. Rhannu'r gwersi a ddysgwyd o ddulliau gweithredu wedi'u teilwra'n benodol ledled ôl troed De Cymru a nodi arferion gorau	Arweinwyr Lleihau Niwed
2.3 Sicrhau bod partneriaid yn cydweithio â'r sector cyfiawnder ieuenctid i ddarparu gwasanaethau ymyriadau cynnar sy'n dargyfeirio pobl ifanc o droseddu a defnyddio cyffuriau.	
a. Gweithio gyda gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid ledled ôl troed De Cymru er mwyn sicrhau bod cyfleoedd dargyfeirio ar gael (cyfleoedd datrys y tu allan i'r llys a chyfleoedd datrys Cyfiawnder Adferol)	Arweinydd Uned Cyfiawnder Troseddol yr Heddlu
b. Sicrhau bod gweithwyr a ariennir gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn effeithiol, y cânt eu hintegreiddio i'r ddarpariaeth trin sylweddau leol a'u bod yn gwella llwybrau atgyfeirio i bobl ifanc	Arweinwyr Strategol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Cyfiawnder Troseddol a Chamddefnyddio Sylweddau
c. Gweithwyr Camddefnyddio Sylweddau Cyfiawnder Ieuenctid i ddarparu sesiynau gwybodaeth wedi'i thargedu i staff mewn lleoliadau preswyl er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r wybodaeth ddiweddaraf	Arweinwyr Cyfiawnder Ieuenctid Awdurdodau Lleol

2.4 Datblygu strategaeth gyfathrebu, yn fewnol ac yn allanol, i godi ymwybyddiaeth ac i wella cyfleoedd i gael gafael ar gudd-wybodaeth a sicrhau bod y gymuned yn hyderus yn rhoi gwybod am droseddau.	
a. Llunio strategaeth gyfathrebu gyffredinol	Yr Adran Cyfathrebu Corfforaethol
b. Cyflwyno bwletinau allanol/straeon newyddion da bob mis er mwyn hyrwyddo gwaith HDC a'i bartneriaid	Yr Adran Cyfathrebu Corfforaethol
c. Cyflwyno sesiynau codi ymwybyddiaeth mewnol i staff ar faterion blaenoriaeth weithredol fel nodi arwyddion bod pobl yn agored i niwed neu achosion o gamfanteisio	Yr Adran Cyfathrebu Corfforaethol
d. Cyflwyno digwyddiadau Datblygiad Proffesiynol Parhaus rheolaidd wedi'u trefnu'n unol ag amserlen i ymarferwyr	Yr Adran Gwasanaethau Dysgu a Datblygu
e. Sicrhau bod PCSOs yn deall bod eu rôl yn allweddol wrth godi ymwybyddiaeth a chynnig cyfleoedd i newid agweddau tuag at gamddefnyddio sylweddau	Arweinydd Plismona yn y Gymdogaeth Comanderiaid Unedau Rheoli Sylfaenol
2.5 Gwrando ar leisiau'r rheini â phrofiad uniongyrchol blaenorol a chyfredol, teuluoedd a dioddefwyr er mwyn sicrhau y caiff eu safbwyntiau ar y ffordd rydym yn gweithredu eu hystyried.	
a. Adborth gan y cyhoedd drwy deithiau cerdded Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru a sgyrsiau cymunedol	Swyddog Ymgysylltu Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru
b. Rhannu profiad defnyddwyr gwasanaethau drwy Brosiect ADDER ledled De Cymru	Swyddog Cyfranogiad Defnyddwyr Gwasanaethau Prosiect ADDER
c. Ystyried adborth gan bobl ifanc drwy ‘Fforwm Lleisiau Ifanc’ Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru Swyddog Ymgysylltu

d. Caiff ymatebion preswylwyr sy'n cymryd rhan yn yr Arolwg Cymunedol blynyddol eu hystyried fel rhan o weithgareddau parhaus a'r broses o ddatblygu trefniadau cyfathrebu	Swyddog Ymgysylltu Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru
e. Gan gysylltu â'r Glasbrint Troseddu ymhlith Menywod, byddwn yn gwrando ar brofiad uniongyrchol y menywod er mwyn atgyfnerthu dulliau sy'n ystyriol o drawma a rhywedd	Rheolwr Rhaglen Llwybr Menywod Gwasanaethau Carchardai a Phrawf EF
f. Gan gysylltu â gwaith y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol ar y Cyd, byddwn yn gwrando ar brofiadau pobl a chymunedau Du ac Ethnig Lleiafrifol	Arweinydd Strategol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Craffu, Sicrwydd a Chydraddoldeb
g. Sicrhau y gall PCSOs gyflwyno'r adborth a gânt gan gymunedau er mwyn sicrhau y caiff darlun datblygedig o gudd-wybodaeth ei lunio	Arweinydd Plismona yn y Gymdogaeth Comanderiaid Unedau Rheoli Sylfaenol
2.6 Datblygu systemau lle gellir rhannu cudd-wybodaeth yn effeithiol rhwng partneriaid er mwyn deall y bygythiadau presennol a'r bygythiadau sy'n dod i'r amlwg ac atal achosion difrifol o niwed.	
a. Partneriaeth â WEDINOS er mwyn casglu, profi a deall sylweddau a atafaelir	Arweinydd Cyffuriau'r Heddlu
b. Rhannu gwybodaeth am ganlyniadau profion cyffuriau â phartneriaid	Arweinydd Cyffuriau'r Heddlu
c. Adolygu'r prosesau ar gyfer cynnal Profion Cyffuriau Adeg Arestio a rhoi arferion effeithiol parhaus ar waith	Arweinydd a Phrosiect Uned Cyfiawnder Troseddol yr Heddlu Cydgysylltydd ADDER
d. Gwella effeithlonrwydd y broses o brofi sylweddau a ganfyddir yn y lleoliad yn dilyn Marwolaeth yr amheuir ei bod yn Gysylltiedig â Chyffuriau.	Arweinydd Cyffuriau'r Heddlu
2.7 Gweithio gyda'r Uned Atal Trais i fynd i'r afael â thrais ymhlith ieuenctid ac achosion o gamfanteisio sy'n gysylltiedig â chyflenwi cyffuriau.	

a. Gwaith parhaus gyda fframweithiau diogelu cyd-destunol amlasiantaeth sefydledig ar lefel leol, gan gynnwys comisiynu a monitro gwasanaethau cymorth arbennig e.e. Media Academy Cymru, Ymddiriedolaeth St Giles	Arweinydd Cyffuriau'r Heddlu/Arweinydd yr Uned Atal Trais/Arweinydd Strategol ar gyfer Diogelwch Cymunedol ac Atal Trais
b. Ymgyrchoedd addysgol sy'n canolbwyntio ar gamfanteisio a phobl agored i niwed e.e. Ymgyrch Fearless	Arweinydd Cyffuriau'r Heddlu
c. Defnyddio data a chudd-wybodaeth a ddarparwyd gan Dimau Atal Trais y GIG yng Nghaerdydd ac Abertawe i ddatblygu ymatebion priodol.	Yr Uned Atal Trais
d. Gweithio gyda Peer Action Collective (PAC) i ddatblygu darnau o waith wedi'u cydgynhyrchu â ffocws penodol, sy'n ystyried y cysylltiadau rhwng camddefnyddio sylweddau, trais ymhlith ieuenctid a gwendidau cysylltiedig.	Yr Uned Atal Trais
e. Gwell gwaith dadansoddi i ddeall marchnadoedd cyffuriau ac i dargedu mannau lle ceir lefelau uchel o broblemau.	Arweinydd Uned Cudd-wybodaeth a Throseddau Cyfundrefnol yr Heddlu
2.8 Gweithio gyda Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol i ymdrin â materion sy'n gysylltiedig â'r economi liw nos.	
a. Sicrhau y caiff camddefnyddio sylweddau ei ystyried fel rhan o strategaethau lleol ar gyfer yr Economi Liw Nos	Partneriaethau Diogelwch Cymunedol

Cyflawni Tactegol	Perchennog
3.1 Datblygu a chynnal cydberthnasau â phartneriaid er mwyn gwella systemau atgyfeirio a pharhau i ddarparu gwasanaethau effeithiol.	
a. Gwell cysylltiadau ag Arweinwyr Lleihau Niwed	Arweinydd Cyffuriau'r Heddlu
b. Gwella'r trefniadau ar gyfer rhannu gwaith Byrddau Cynllunio Ardal ledled Heddlu De Cymru	Arweinwyr Lleihau Niwed
c. Heddlu De Cymru i gydweithio â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n effeithiol rhwng gwasanaethau plismona a charchardai er mwyn lleihau'r lefel o gyffuriau mewn carchardai	Arweinydd Cyffuriau HMPPS ac Arweinydd y Prosiect Cudd-wybodaeth ar y Cyd
3.2 Erlyn y rheini sy'n cyflenwi cyffuriau a reolir, a rhoi cymorth i'r rheini y camfanteisir arnynt, y rheini sy'n agored i niwed, y rheini sydd wedi rhoi gwybod am achosion ac sydd wedi bod	

yn dyst i bobl yn defnyddio cyffuriau a sicrhau bod y rheini sy'n rhoi gwybodaeth yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn.	
a. Sicrhau y caiff mesurau diogelu eu rhoi ar waith (e.e. atgyfeiriadau at y Gwasanaethau Cymdeithasol, Systemau Atgyfeirio Cenedlaethol)	Uned Diogelu'r Cyhoedd
b. Sicrhau bod Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid yn ymwybodol o ddioddefwyr posibl mewn perthynas â chyflenwi ac achosion o gamfanteisio (neu achosion a amheuir) gan gynnig cymorth priodol	Uned Diogelu'r Cyhoedd
c. Gwrando ar argymhellion rhwydwaith cydweithredol Dioddefwyr a Goroeswyr De Cymru	Arweinydd Strategol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
d. Mwy o waith gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) i bennu cyhuddiadau priodol ar gyfer achosion difrifol a chymhleth (er enghraifft, anafiadau oherwydd nodwyddau, unigolion agored i niwed)	Arweinydd Cyffuriau'r Heddlu
e. Mwy o waith gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid er mwyn gallu nodi pobl ifanc sy'n ymwneud â chyflenwi yn gynnar – er mwyn gallu rhannu gwybodaeth i dynnu sylw at anghenion, risgiau ac unigolion agored i niwed cyn gynted â phosibl gan fanteisio ar gyfleoedd i ddargyfeirio'r unigolion hynny at gymorth	Arweinwyr y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid
3.3 Sicrhau ein bod yn defnyddio amrywiaeth o Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys sy'n cynnig cyfleoedd dargyfeirio o'r system cyfiawnder troseddol i gael triniaeth, cymorth ac addysg briodol.	
a. Rhoi prosesau drysau troi ar waith a defnyddio Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys yn effeithiol lle y bo'n briodol	Arweinydd Uned Cyfiawnder Troseddol yr Heddlu
b. Sicrhau mynediad at gyfleoedd dargyfeirio sy'n ymdrin ag anghymesuredd ac yn sicrhau cydraddoldeb o ran mynediad	Arweinydd Uned Cyfiawnder Troseddol yr Heddlu
c. Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau y gallant reoli'r galw ar wasanaethau drwy ddargyfeirio	Arweinydd Uned Cyfiawnder Troseddol yr Heddlu
d. Datblygu gwaith datrys ar y stryd gan ddefnyddio Cyfiawnder Adferol ledled De Cymru (gan ddysgu o gynlluniau cynnar a roddwyd ar waith yn ardal Cwm Taf a Chaerdydd)	Arweinydd Uned Cyfiawnder Troseddol yr Heddlu
3.4 Defnyddio dull gweithredu blaengar ac arloesol mewn perthynas ag ymyriadau wrth ymdrin â chyffuriau, gan sicrhau llais i ddefnyddwyr gwasanaethau ac y caiff y rheini â phrofiad	

uniongyrchol blaenorol a chyfredol eu cynnwys ar y cyd â gwasanaethau cyffuriau cymunedol a gwasanaethau cyffuriau sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol.	
a. Dysgu o gynlluniau 'Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys' peilot a rhoi dulliau newydd ac arloesol ar waith yn seiliedig ar adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau a'r angen am dystiolaeth	Arweinydd Uned Cyfiawnder Troseddol yr Heddlu
b. Y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg mewn perthynas â Gweithwyr Rhyw a Phobl Ddigartref	Arweinydd Uned Diogelu'r Cyhoedd yr Heddlu
c. Ymgysylltu ag arbenigwyr er mwyn ymdrin ag anghydraddoldebau wrth ddarparu gwasanaethau ac anghymesuredd wrth gael mynediad at wasanaethau dargyfeirio (h.y. sicrhau y caiff y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ar y Cyd, y Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid a'r Glasbrint i Fenywod eu hystyried a'u hintegreiddio i ddulliau dargyfeirio)	Arweinydd Uned Cyfiawnder Troseddol yr Heddlu
d. Adolygu'r gwaith ymchwil diweddaraf yn rhyngwladol, yn genedlaethol ac yn lleol gan bartneriaid lleol ac ystyried dulliau datrys problemau	Arweinydd Cyffuriau'r Heddlu ac Arweinydd Strategol Camddefnyddio Sylweddau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
e. Dysgu o gynllun peilot Naloxone trwynol a'i ehangu	Arweinydd Cyffuriau'r Heddlu
3.5 Datblygu a rhannu'r gwersi a ddysgwyd o Brosiect ADDER, sef menter wedi'i hariannu gan y Swyddfa Gartref i fynd i'r afael ag achosion o gamddefnyddio cyffuriau a throseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau.	
a. Prosiect ADDER i barhau fel rhan o gynllun peilot cenedlaethol	Cydgysylltydd ADDER

Cyflawni Tactegol	Perchennog
4.1 Gweithio'n effeithiol gyda byrddau strategol allweddol i sicrhau bod gwasanaethau trin cyffuriau digonol a phriodol ar gael ym mhob rhan o'r heddlu (er enghraifft, Byrddau Cynllunio Ardal a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol).	
a. Sicrhau bod yr heddlu wedi'i gynrychioli ar Fyrddau Cynllunio Ardal a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol ledled De Cymru	Arweinydd Strategol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Cyffuriau Arweinydd Cyffuriau'r Heddlu Arweinydd strategol ar gyfer diogelwch cymunedol ac atal trais

b. Gwaith partneriaeth i ddeall materion lleol o ran cyflenwad a galw	Arweinydd Cyffuriau'r Heddlu
c. Gweithio gyda phartneriaid i hwyluso'r broses o gyflwyno Naloxone i swyddogion rheng flaen ledled ardal yr heddlu a chyfrannu at gyfleoedd eraill i ddarparu Naloxone (er enghraifft, Ceidwaid Dinas Abertawe)	Arweinydd Cyffuriau'r Heddlu ac Arweinydd Strategol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
4.2 Gwella'r trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth â darparwyr gwasanaethau rheoli troseddwyr, partneriaid cyfiawnder ieuenctid a chyfiawnder troseddol er mwyn gwella materion lleol yn well a datblygu gwasanaethau priodol.	
a. Gwell gwaith ymgysylltu ag Arweinwyr Lleihau Niwed	Arweinydd Cyffuriau'r Heddlu
b. Gwell gwaith ymgysylltu ag Asiantaethau Cyffuriau	Arweinydd Cyffuriau'r Heddlu
c. Rhannu data cyffuriau rhwng yr Uned Ymchwilio Gwyddonol ar y Cyd/WEDINOS ac Arweinwyr Lleihau Niwed	Arweinydd Cyffuriau'r Heddlu
d. Nodi cyfleoedd i gydweithio â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i wella'r broses o gasglu gwybodaeth a rhannu trefniadau cadarn ar gyfer rhannu cudd-wybodaeth	Arweinydd Cyffuriau'r Heddlu ac Arweinwyr y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid
4.3 Gwella prosesau casglu cudd-wybodaeth ar bob lefel er mwyn meithrin dealltwriaeth fwy cywir o fygythiadau lleol a bygythiadau i'r heddlu yn gyffredinol	
a. Strategaeth Gyfathrebu'r Heddlu yn gysylltiedig â Crimestoppers	Cyfathrebu Corfforaethol
b. Datblygu trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth â phartneriaid â'r Bwrdd Trais Difrifol a Throseddau Cyfundrefnol Lleol	Comanderiaid Unedau Rheoli Sylfaenol
c. Gwaith datblygu rhagweithiol drwy Dimau Plismona yn y Gymdogaeth a dulliau Ymgysylltu Cymunedol gan PCSOs	Comanderiaid Unedau Rheoli Sylfaenol
4.4 Datblygu dulliau cyfathrebu ar gyfer rhannu gwybodaeth â phartneriaid a'n cymunedau, gan gydnabod pwysigrwydd sicrhau bod partneriaid a chymunedau yn gwybod sut mae eu cyfraniad wedi helpu i gyflawni canlyniadau cadarnhaol.	
a. Gweler cam gweithredu 2.4. a	

Gofyniad o ran Cudd-wybodaeth

Mae deall maint, graddfa a chymhlethdod marchnadoedd cyffuriau ynghyd â nodi'r unigolion hynny sy'n hwyluso prosesau cyflenwi, yn creu galw neu'n destun camfanteisio o fewn ardal yr heddlu yn agwedd hanfodol o allu mynd i'r afael â'r bygythiad yn effeithiol. Bydd dibynnu ar gudd-wybodaeth a data traddodiadol yr heddlu yn darparu darlun ystumiedig ac anghywir o'r farchnad ac yn cyfyngu ar gywirdeb a gwerth cynhyrchion dadansoddol strategol a thactegol.

Felly, mae'n flaenoriaeth sicrhau bod gofynion cyfredol a gofynion yn y dyfodol o ran cudd-wybodaeth yn mynd ati i nodi a dod o hyd i drawstoriad eang o ddata a chudd-wybodaeth gan bartneriaid gorfodi'r gyfraith, partneriaid yn y sector cyhoeddus ac asiantaethau'r trydydd sector a all helpu i greu darlun cyfannol a chywir sy'n adlewyrchu gwir lefel y bygythiad.

Ar y lefel uchel fwyaf strategol, dylai'r holl ofynion cudd-wybodaeth sy'n gysylltiedig â chyffuriau ganolbwyntio ar feithrin ein dealltwriaeth mewn perthynas â'r canlynol:

- Pwy sy'n ymwneud â chyflenwi cyffuriau gwaharddedig yn ardal yr heddlu?
- Pwy sy'n wynebu'r risg fwyaf o gael eu denu i ddefnyddio a chyflenwi cyffuriau?
- Pwy sy'n destun camfanteisio oherwydd achosion o fasnachu mewn cyffuriau a chyflenwi cyffuriau yn ardal yr heddlu?
- Pa gynwyddau sydd ar gael yn ardal yr heddlu ac a oes gwahaniaethau o ran argaeledd rhwng gwahanol ardaloedd daearyddol neu gymunedau?
- Beth yw'r catalyddion a'r galluogwyr ar gyfer masnachu mewn cyffuriau a chyflenwi cyffuriau?
- Ym mha ardaloedd y ceir nifer uchel o broblemau o ran cyffuriau o fewn ardal yr heddlu?
- Ble a phryd y caiff cyffuriau eu cyflenwi?
- Pam mae cyffuriau yn cael eu cyflenwi neu eu defnyddio?
- Sut mae marchnadoedd cyffuriau lleol yn gweithredu?
- Sut rydym yn mynd ati i amharu ar rwydweithiau cyffuriau a nodwyd?

Mae gwaith dadansoddi data a gwybodaeth yn allweddol o ran meithrin ein dealltwriaeth o'r tirlun ledled De Cymru, ac mae Heddlu De Cymru yn cydnabod pwysigrwydd dadgyfuno data yn ôl rhywedd, ac ethnigrwydd, er mwyn darparu dealltwriaeth fwy penodol o themâu a materion sy'n berthnasol i fenywod a chymunedau du ac ethnig lleiafrifol.

Dull Gweithredu Amlasiantaethol

Er mai'r heddlu ac asiantaethau eraill sy'n gorfodi'r gyfraith sy'n amlwg yn y sefyllfa orau i gyfyngu ar ymdrechion i gyflenwi cyffuriau gwaharddedig i ardal yr heddlu, nid ydynt o reidrwydd yn meddu ar y cylch gwaith, y sgiliau arbenigol na'r pwerau deddfwriaethol i leihau'r galw ac i leihau niwed. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn mabwysiadu dull gweithredu amlasiantaethol er mwyn mynd i'r afael â'r bygythiad sy'n deillio o gyffuriau mewn ffordd gyfannol.

Sefydlwyd Byrddau Cynllunio Ardal yn 2010 fel rhan o'r trefniadau newydd i roi Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru 'Gweithio gyda'n Gilydd i Leihau Niwed' ar waith. Mae'r Byrddau Cynllunio Ardal yn darparu fframwaith rhanbarthol er mwyn atgyfnerthu trefniadau gweithio mewn partneriaeth ac arweinyddiaeth strategol er mwyn rhoi'r strategaeth camddefnyddio sylweddau ar waith; ac ehangu a gwella swyddogaethau allweddol cynllunio, comisiynu a rheoli perfformiad.

Mae aelodau Byrddau Cynllunio Ardal yn cynnwys cynrychiolwyr o'r holl awdurdodau cyfrifol sy'n cynnwys Partneriaethau Diogelwch Cymunedol er mwyn gallu cyflawni cyfrifoldebau statudol mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau ar lefel ranbarthol a chaiff Heddlu De Cymru a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu eu cynrychioli ar bob Bwrdd Cynllunio Ardal. Ceir amrywiadau

sylweddol yn y ffordd y mae Byrddau Cynllunio Ardal yn gweithredu ac felly byddwn yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod ymdrech, uchelgais, arloesedd ac yn bwysig, awydd i weithredu ar frys, yn rhan o waith pob Bwrdd. Byddwn yn ceisio cymryd camau i gefnogi Byrddau Cynllunio Ardal wrth iddynt weithredu mewn ffordd fwy effeithiol, gan ganolbwyntio ar **gysondeb, cyflawni** ac **effaith** ar gymunedau lleol.

Gorfodi'r Gyfraith

O ran gorfodi'r gyfraith, bydd Heddlu De Cymru yn gweithio'n ddiflino gyda phartneriaid mewn heddluoedd cyfagos, y rhwydwaith Unedau Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol a'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol i nodi, targedu a tharfu ar yr unigolion hynny a'r Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol hynny sy'n mynd ati i gyflenwi cyffuriau gwaharddedig yn ardal yr heddlu neu'n galluogi i gyffuriau o'r fath gael eu masnachu yn ardal yr heddlu.

Byddwn yn parhau i fonitro unigolion y gwyddys eu bod yn masnachu mewn cyffuriau drwy'r System Cyfiawnder Troseddol a byddwn yn ymgysylltu â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS) i sicrhau y caiff troseddwyr gyrfa sy'n ymwneud â chyflenwi cyffuriau a masnachu mewn cyffuriau eu hatal rhag troseddu y tu mewn i'r ystad carchardai ac ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

Partneriaid Camddefnyddio Sylweddau a Phartneriaid nad ydynt yn Gorfodi'r Gyfraith

Drwy feithrin ein cydberthnasau â'r tri Arweinydd Lleihau Niwed dynodedig ym mhob awdurdod lleol sy'n rhan o ardal Heddlu De Cymru, byddwn yn meithrin ein dealltwriaeth o farchnadoedd cyffuriau lleol, yn gwella ein cudd-wybodaeth ac yn sicrhau ein bod yn gwneud atgyfeiriadau priodol ar gyfer yr unigolion hynny y mae angen ymyriadau a gwasanaethau allgymorth arnynt. Bydd hyn yn effeithio ar y galw am gyffuriau yn y gymuned.

Mae'r cynllun Naloxone Trwynol peilot sy'n cael ei roi ar waith yn Uned Reoli Sylfaenol Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot yn fenter Lleihau Niwed sylweddol wedi'i hanelu at atal marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau a sicrhau y caiff y rheini sy'n cymryd gorddos eu hatgyfeirio at y gronfa ddata genedlaethol ar gyfer Lleihau Niwed ac y cânt wasanaethau allgymorth wedi hynny er mwyn atal digwyddiadau pellach.

Dangosyddion Perfformiad

Er mwyn asesu effeithiolrwydd y strategaeth hon, mae angen fframwaith perfformiad er mwyn darparu sail dystiolaeth ar gyfer cynnydd yn erbyn yr eitemau a ddiffiniwyd fel eitemau i'w cyflawni a'r amcan cyffredinol. Er bod y gwaith i lunio fframwaith o'r fath yn mynd rhagddo o hyd, mae'r mesurau isod yn darparu man cychwyn defnyddiol. Caiff dangosyddion meintiol ac ansoddol strategol mwy soffistigedig eu datblygu ar y cyd â phartneriaid wrth i'r strategaeth ddatblygu.

Ein prif ffocws yw diogelwch a llesiant ein cymunedau. I ddechrau, byddwn yn monitro effeithiolrwydd gweithgareddau drwy wneud y canlynol:

Atal a Dargyfeirio: drwy ymgysylltu â phobl ifanc mewn addysg drwy Raglen Ysgolion yr Heddlu i Gymru

Gwaith Ymgysylltu Cymunedol: Arolygon cyhoeddus i fesur ein heffeithiolrwydd wrth ymdrin â throseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn ein cymunedau.

Dyfodol De Cymru: Y rhaglen ymyriadau cyffuriau sy'n nodi, yn profi ac yn atgyfeirio troseddwyr sy'n defnyddio cyffuriau i gael triniaeth er mwyn chwalu'r cylch rhwng defnyddio cyffuriau a throseddu.

Amharu ar Droseddau Cyfundrefnol Difrifol: Gweithgarwch amharu wedi'i recordio yn erbyn unigolion, Gangiau a Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol sy'n ymwneud â masnachu mewn cyffuriau a chyflenwi cyffuriau drwy gamau gorfodi wedi'u targedu.

Mesurau Meintiol ar gyfer Gweithgarwch yr Heddlu: Gall y rhain gynnwys Arestiadau sy'n gysylltiedig â chyffuriau, atafaelu cynwyddau ac atafaelu asedau.

Cudd-wybodaeth a Dadansoddi: Adlewyrchu newidiadau i faint, graddfa a chymlethdod marchnadoedd cyffuriau sy'n bodoli eisoes, ynghyd â'r bygythiad, y risg a'r niwed cysylltiedig.

Strategaeth Gyfathrebu

Datblygwyd y Strategaeth Gyfathrebu ganlynol er mwyn helpu i roi Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau a Lleihau Niwed yr heddlu ar waith i leihau'r galw a chyfyngu ar y cyflenwad o gyffuriau gwaharddedig yn ein cymunedau.

1.1 Cefndir

Mae effeithiau niweidiol camddefnyddio cyffuriau yn effeithio ar lawer o bobl yn ein cymunedau ac yn camfanteisio ar aelodau mwyaf agored i niwed cymdeithas. Mae'n hanfodol bod Heddlu De Cymru yn dangos ei ymrwymiad i fynd i'r afael â'r math hwn o droseddoldeb a'i fod yn cyflawni ei genhadaeth, sef cadw De Cymru yn ddiogel.

1.2 Nod

- Gwella ymwybyddiaeth yn fewnol ac yn allanol o droseddoldeb sy'n gysylltiedig â chyffuriau, sut i nodi arwyddion bod pobl yn agored i niwed fel gweithgarwch cogio/llinellau cyffuriau a beth i'w wneud pan gaiff achosion o'r fath eu hamau
- Addysgu'r cyhoedd am effeithiau niweidiol sylweddau newydd a sylweddau sy'n dod i'r amlwg
- Hyrwyddo camau gweithredu gan Heddlu De Cymru a meithrin hyder yn ein cymunedau bod gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â chyflenwi cyffuriau

1.3 Amcanion

- Meithrin gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio wrth newid ymddygiad ar ran unigolion, teuluoedd a chymunedau
- Annog cymunedau i gefnogi camau gweithredu lleol i leihau achosion o gamddefnyddio sylweddau a gwella cydnerthedd
- Addysgu cynulleidfaoedd mewnol drwy hyrwyddo gweithdai a sesiynau addysg rheolaidd
- Gwella ymwybyddiaeth o'r ffordd y mae cyffuriau yn effeithio ar Dde Cymru a'n cymunedau Addysg cynulleidfaoedd allanol o arwyddion gweithgarwch sy'n ymwneud â chyffuriau a llinellau cyffuriau, a pha gamau y gallant eu cymryd i helpu
- Gwella ymwybyddiaeth o'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd gan Heddlu De Cymru drwy roi cyhoeddusrwydd i achosion gwerth eu hyrwyddo ac achosion lle cafwyd canlyniadau cadarnhaol
- Sicrhau bod gwybodaeth am linellau cyffuriau ar gael i gynulleidfaoedd mewnol ac allanol

ATODIAD A

Acronymau

AMCD – Y Cyngor Cynghori ar Gamddefnyddio Cyffuriau
BCU – Uned Reoli Sylfaenol
CJS – System Cyfiawnder Troseddol
COMU – Uned Rheoli Gweithrediadau Cudd
DRD – Marwolaethau sy'n gysylltiedig â Chyffuriau
FIOCU – Uned Cudd-wybodaeth a Throseddau Cyfundrefnol yr Heddlu
FCJU – Uned Cyfiawnder Troseddol
HMPPS – Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi
JSIU – Uned Ymchwilio Gwyddonol ar y Cyd
LDIS – System Gwybodaeth Leol am Gyffuriau
LSVOCB – Bwrdd Trais Difrifol a Throseddau Cyfundrefnol Lleol
MARAC – Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg
MDMA – Methylenediocsimethamffetamin
Risgiau MoRiLE – Rheoli Risgiau mewn perthynas â Gorfodi'r Gyfraith
NCA – Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol
NPT – Tîm Plismona yn y Gymdogaeth
OCG – Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol
Swyddogion OCT – Swyddogion Timau Troseddau Cyfundrefnol
OoCD – Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys
PCC – Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
PCSO – Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu
RJ – Cyfiawnder Adferol
ROCU – Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol
SCRA – Tynhawyr Derbynyddion Canabinoid Synthetig (a elwir yn gyffredin yn Spice)
Gorchwylion SOC – Gorchwylion Troseddau Cyfundrefnol Difrifol
HDC – Heddlu De Cymru
VAWDSV – Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
WPSP – Rhaglen Ysgolion yr Heddlu i Gymru
WEDINOS – Prosiect Cyffuriau Newydd ac Adnabod Sylweddau Newydd Cymru
YJS – Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid

Diffiniadau

Rhaglen Ysgolion yr Heddlu i Gymru

Mae Rhaglen Ysgolion yr Heddlu i Gymru yn enghraifft o weithio mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a'r pedwar heddlu yng Nghymru ac mae'n cynnwys cyfres o fewnbynnau a gwersi Atal Troseddau a mentrau Plismona Cefnogol mewn Ysgolion sy'n anelu at wneud y canlynol:

- addysgu plant a phobl ifanc am y niwed y gall camddefnyddio sylweddau ei achosi i'w hiechyd, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach
- hyrwyddo egwyddorion dinasyddiaeth gadarnhaol drwy gyfrwng addysg
- cyflawni gostyngiad o ran lefelau trosedd ac anhrefn yn ein cymunedau ifanc.

Mae Rhaglen Ysgolion yr Heddlu i Gymru yn darparu gwasanaeth cofleidiol i ysgolion yng Nghymru gan gynnig addysg atal troseddau a gwasanaethau plismona cefnogol o dan is-bennawd y Rhaglen, "Heddlu yn diogelu plant Cymru drwy addysg atal troseddau".

Llinellau Cyffuriau

"…term a ddefnyddir i ddisgrifio gangiau a rhwydweithiau troseddol cyfundrefnol sy'n gysylltiedig ag allforio cyffuriau anghyfreithlon i un neu fwy o ardaloedd mewnforio [yn y DU], gan ddefnyddio llinellau ffôn symudol penodol neu fath arall o “linell ddelio”. Maent yn debygol o gamfanteisio ar blant ac oedolion sy'n agored i niwed i symud [a storio]'r cyffuriau a'r arian, a byddant yn aml yn defnyddio gorfodaeth, bygylu, trais (gan gynnwys trais rhywiol) ac arfau." - NAC (20)173 – Asesiad Interim o'r Cyflenwad Cyffuriau i mewn i Linellau Cyffuriau

Dyfodol De Cymru

Ers 2016, mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Gwasanaeth Prawf wedi comisiynu gwasanaeth ar y cyd a gaiff ei ddarparu yn y Ddalfa, i gleientiaid y Gwasanaeth Prawf, yn y carchardai lleol ledled De Cymru ac i gyn garcharorion am flwyddyn ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar. Rydym wedi ceisio cysylltu'r gwasanaeth hwn â gwasanaethau lleol y GIG a chafwyd canlyniadau amrywiol. Mae Dyfodol De Cymru yn gonsortiwm o ddarparwyr a gomisiynwyd yn 2016 gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi. Mae'r Consortiwm yn cynnwys G4S, Kaleidoscope ac Adferiad ac mae'n gweithredu ledled ardal Heddlu De Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Mae'r gwasanaeth yn darparu dull system gyfan o ddarparu ymyriadau a chymorth i unigolion, drwy'r System Cyfiawnder Troseddol. Cynigir ymyriadau seicogymdeithasol a chlinigol i'r rheini â phroblemau camddefnyddio cyffuriau a throseddu yn y gymuned ac mewn carchardai er mwyn lleihau'r niwed i'r unigolyn ac i'r gymuned. Mae'r gwasanaeth yn darparu gwasanaethau trin cost-effeithiol, gan weithio'n galed i gael triniaeth i bobl a chefnogi'r rheini y gallai fod risg uchel y byddant yn niweidio unigolion.

Cyflenwad Cyffuriau'r Farchnad Ganol

“Mae'r farchnad ganol yn cynnwys nifer o froceriaid cyffuriau cynwyddau a chanddynt statws strategol eang sy'n cysylltu cyfanwerthwyr a masnachwyr lefel uchaf â delwyr manwerthu lefel is.

Wrth ystyried model busnes y Llinellau Cyffuriau, mae'r Farchnad Ganol wedi'i lleoli tuag at ben manwerthu'r broses cyflenwi cyffuriau.” - NAC (20)173 – Asesiad Interim o'r Cyflenwad Cyffuriau i mewn i Linellau Cyffuriau

Marchnadoedd Cyffuriau Problemus (Crac, Heroin, Spice, Bensodiasepin a Chocên)

Mae marchnadoedd problemus yn gweithredu drwy gyfuniad o ddelwyr “lleol” lefel isel (sy'n aml yn delio er mwyn ariannu eu harfer personol) sy'n gweithredu ochr yn ochr â Gangiau Stryd Terfol (USG), Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol (OCG) a Llinellau Cyffuriau.

Canabis fu'r cyffur a ddefnyddiwyd fwyaf yng Nghymru a Lloegr yn gyson (SYG, 2020). Dyma'r cyffur a gaiff ei atafaelu amlaf ar draws holl Unedau Rheoli Sylfaenol HDC ac mae'n gyfrifol am 60% o'r holl gyffuriau a gofnodir fel rhan o achosion.

Diolch i ymdrechion i atafaelu Cocên yn ardal yr heddlu, gwelwyd gostyngiad yn ystod 2020/2021, ond dyma'r cyffur a gaiff ei atafaelu amlaf ond un yn Ne Cymru o hyd. Yn aml, ystyrir Cocên fel cyffur parti ond mae'r data yn dangos bod y galw wedi parhau hyd yn oed pan oedd yr economi liw nos ar gau.

Mae nifer y digwyddiadau sy'n gysylltiedig ag atafaelu heroin wedi parhau'n gymharol sefydlog ers y cyfnod adolygu diwethaf sy'n ategu'r ddealltwriaeth, fel yn achos Crac Cocên, fod Heroin i raddau helaeth yn gyffur problemus y mae defnyddwyr wedi parhau i'w ddefnyddio. Oherwydd natur hynod gaethiwus Heroin, nid yw'r pandemig yn debygol o fod wedi effeithio ar ddefnyddwyr a byddant wedi parhau i'w ddefnyddio fel yr oeddent yn ei ddefnyddio'n flaenorol.

Ar hyn o bryd, Spice yw'r pedwerydd cyffur a gaiff ei atafaelu amlaf yn Ne Cymru a gwelwyd cynnydd mawr ers adolygiad 2018/2019 gyda thros 234% yn fwy o achosion yn sôn am unigolion sy'n meddu ar Spice neu'n ei gyflenwi. Mae ymatebwyr i arolwg Partneriaeth HDS yn nodi bod argaeledd Spice wedi cynyddu yn ystod y pandemig a bod y farchnad wedi'i "chornelu" gan nifer bach o ddelwyr cyfanwerthol sydd wedyn yn gwerthu drwy ddefnyddwyr dibynnol.

Mewn Bensodiasepinau gwaharddedig y gwelwyd un o'r achosion mwyaf o gynnydd yn ystod cyfnod 2020/2021. O ystyried y gorbryder a'r straen ychwanegol a achoswyd gan bandemig COVID-19, nid yw hyn o bosibl yn syndod. Dyma'r grŵp meddyginiaethau a gaiff eu rhagnodi amlaf yn y byd ac fe'u defnyddir i drin amrywiaeth o gyflyrau, gan gynnwys gorbryder, insomnia, epilepsi ac ymdrechion i roi'r gorau i alcohol. Mae enghreifftiau o Bensodiasepinau yn cynnwys Valium, Xanax a Diazepam.

Camddefnyddio Sylweddau: Yn y ddogfen hon, defnyddir y term i ddisgrifio'r defnydd o alcohol, cyffuriau anghyfreithlon neu feddyginiaethau dros y cownter neu ar bresgripsiwn yn cael eu defnyddio mewn ffordd na fwriedir iddynt gael eu defnyddio ac a allai fod yn niweidiol i'r unigolyn neu i eraill o'i amgylch.

Prosiect ADDER

Mae Prosiect ADDER yn cynnig ymateb system gyfan i drechu achosion o gamddefnyddio cyffuriau. Mae'n rhaglen pedair blynedd (2021-2025) wedi'i hariannu gan y Swyddfa Gartref ac wedi'i chydgysylltu'n lleol gan Dîm Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru.

Mae'r rhaglen yn ceisio sicrhau bod mwy o bobl yn cael triniaeth effeithiol, a bod opsiynau trin a gwella estynedig ar gael, gan gynnwys cymorth cyflogaeth, a gwell cyfathrebu rhwng amrywiaeth o sefydliadau gan gynnwys darparwyr triniaethau, Llysoedd, Carchardai, y Gwasanaeth Prawf a'r Heddlu.

Caiff Prosiect ADDER ei weithredu ar draws amrywiaeth o safleoedd yng Nghymru ac yn Lloegr fel y gwelir ar y map isod.



Dim ond un safle sydd gan Brosiect ADDER yng Nghymru sy'n cwmpasu ardal Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Fel yr unig safle yng Nghymru, ceir gwahaniaethau amlwg o gymharu â safleoedd Prosiect ADDER yn Lloegr. Mae Dyfodol De Cymru yn gweithredu ledled ôl troed De Cymru, ac felly caiff cyllid ADDER yng Nghymru ei ddefnyddio i gydblethu â darpariaeth camddefnyddio sylweddau sy'n bodoli eisoes gan bartneriaid cymunedol a chyfiawnder troseddol. Mae'n rhoi cymorth er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes yn gadarn, gan roi cymorth lle ceir bylchau yn y ddarpariaeth a chan adeiladu ar feysydd o arferion da a datblygiadau arloesol ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn dangos sut mae ADDER yng Nghymru yn cyfrannu at ddull system gyfan sy'n diwallu anghenion lluosog pobl yn ardal Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

Mae pedwar nod prosiect cyffredinol sy'n berthnasol i holl safleoedd Prosiect ADDER, sef:

- lleihau marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau
- lleihau troseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau
- lleihau cyffredinrwydd achosion o ddefnyddio cyffuriau

- amharu'n barhaus ac yn sylweddol ar droseddwyr a rhwydweithiau sy'n achosi llawer o niwed mewn perthynas â chyflenwi a mewnforio cyffuriau/arfau tanio i'r farchnad ganol

Mae'r rhaglen yn cynnwys tair elfen graidd – gweithgarwch gorfodi'r gyfraith cydgysylltiedig, ochr yn ochr â gweithgarwch dargyfeirio estynedig a darpariaeth trin/gwella yn ardaloedd y prosiect.

Gorfodi Lleol – defnyddiwyd cyllid i gyflogi staff ychwanegol, i brynu offer TG ac i roi cymorth ariannol i gyflymu ymholiadau ac ymchwiliadau er mwyn sicrhau bod camau gorfodi cyflym yn cael eu cymryd. Ceir cymorth ariannol i gynnig goramser i swyddogion ac i dalu costau trafnidiaeth ychwanegol sy'n ein galluogi i gadw swyddogion 'ar y stryd'.

Dargyfeirio, Trin a Gwella Lleol – defnyddiwyd cyllid i gefnogi pedwar prosiect lleol allweddol:

Ymyrryd yn Gynnar – Caiff aelodau ychwanegol o staff eu cyflogi fel rhan o'r Gwasanaeth Ymyriadau Troseddwyr (Dyfodol De Cymru) er mwyn sicrhau y gall pobl gael gafael ar gyngor, cymorth a gwasanaethau trin cyn gynted â phosibl i'w hatal rhag datblygu anawsterau pellach. Cynigir ymyriadau cryno sy'n cynnwys rhwng chwech ac wyth sesiwn, yn ogystal â chymorth i bobl gael gafael ar wasanaethau eraill lle y bo'n briodol.

Gwasanaeth Rhagnodi Mynediad Cyflym (RAPS) – Caiff y gwasanaeth hwn ei ariannu ar y cyd â Bwrdd Cynllunio Ardal Bae'r Gorllewin ac mae'n helpu'r rheini sydd fwyaf agored i niwed ac sy'n wynebu risg uchel o wenwyn cyffuriau neu y bydd rhywun yn camfanteisio arnynt. Nid oes yn rhaid bod pobl yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn, gan mai'r nod yw atal pobl sy'n agored i niwed rhag ymuno â'r gwasanaethau cyfiawnder troseddol. Mae'r gwasanaeth yn darparu gwasanaethau allgymorth pendant a pharhaus â ffocws penodol i bobl ag anghenion cymhleth a/neu luosog a fydd yn aml yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu â gwasanaethau.

Gofyniad Triniaeth Iechyd Meddwl (MHTR) – Caiff y prosiect hwn ei ariannu ar y cyd â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi. Mae Forensic Psychology Consultancy (FPC) yn darparu tîm seicoleg a all gynnig cyngor cyn mynd i'r llys, asesiadau a llwybrau trin i bobl a ddaw ger bron y Llys lle bydd cysylltiad rhwng ymddygiad troseddu a materion iechyd meddwl lefel isel i ganolig. Mae'r prosiect yn helpu pobl i wella eu llesiant ac i gysylltu â gwasanaethau eraill lle y bo'n briodol.

Recovery Plus – Gwasanaeth newydd sy'n helpu'r rheini sy'n cyrraedd diwedd eu Gofyniad Adsefydlu Cyffuriau 12 mis (gorchymyn llys), drwy ymestyn y cyfnod cymorth i'w helpu i symud ymlaen a gwella mewn ffordd gadarnhaol. Gall hyn gynnwys cymorth i gael gafael ar wasanaethau dilynol, i ddadwenwyno'n ddiogel o sylweddau ac i ymgymryd â gweithgareddau cadarnhaol i'w helpu i wella yn yr hir dymor.

Defnyddiwyd cyllid Prosiect ADDER hefyd i ariannu dwy swydd yn Nhîm Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru:

Swyddog Cyfranogiad Defnyddwyr Gwasanaethau i sicrhau y caiff llais Defnyddwyr Gwasanaethau ei integreiddio i'r broses o adolygu gwasanaethau sy'n bodoli eisoes, a datblygu gwasanaethau newydd, yn ogystal ag ymgysylltu â sefydliadau partner i ddod o hyd i gyfleoedd i ymgysylltu'n

effeithiol â'r gymuned a helpu pobl i ddefnyddio gwasanaethau a lleihau stigma. Mae'r Swyddog Cyfranogiad Defnyddwyr Gwasanaethau hefyd yn cefnogi prosiect i ddosbarthu Naloxone ymhlith cyfoedion. Nodau'r prosiect hwn yw:

- Dosbarthu cymaint o Naloxone â phosibl i gymunedau ac ardaloedd lle ceir lefelau uchel o gyffuriau yn ardal Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, gan gynnwys i'r rheini nad ydynt yn chwilio am driniaethau ffurfiol a chan fwrw ati mewn ffordd bendant i dargedu'r rheini sy'n wynebu'r risg fwyaf o wenwyn cyffuriau.

- Darparu ymyriadau cryno a chyngor er mwyn lleihau niwed. Bydd yr ymyriadau yn cynnwys cyngor cryno, cyngor ar chwistrellu mwy diogel a gwaredu eitemau miniog mewn ffordd fwy diogel, atgyfeiriadau at Raglenni Nodwyddau a Chwistrellau, defnyddio polygyffuriau, y risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio Bensodiasepinau wedi'u prynu ar y stryd.

- Annog y rhai nad ydynt yn chwilio am driniaethau i gael triniaeth ac esbonio buddiannau triniaeth ac addysgu cymunedau am farwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau ac ymwybyddiaeth o orddosau.

- Ehangu cyrhaeddiad Naloxone i rwydweithiau proffesiynol yn y rhanbarth. Targedu ardaloedd sy'n cael gwybod yn aml am achosion o orddosau nad ydynt yn angheuol e.e. hostelau.

Cydgysylltydd Strategol i ddadansoddi a goruchwylio'r fframwaith rheoli perfformiad, cydgysylltu a rheoli prosiectau, a chydgysylltu â sefydliadau partner gan gynnwys Byrddau Cynllunio Ardal a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol